CLONC

www.clonc.co.uk

ISSN 1753-1071

Rhifyn 288 - 60c
Tachwedd 2010

Papur Bro ardal plwyfi: Cellan, Llanbedr Pont Steffan, Llanbedr Wledig, Llanfair Clydogau, Llangybi, Llanllwni, Llanwenog, Llanwnnen, Llanybydder, Llanycrwys ac Uwch Gaeo a Phencarreg

Siarad Cyhoeddus Saesneg

Tudalen 2

Cadwyn cyfrinachau yr ifanc

Tudalen 14

Diacon newydd yng Nghaersalem

Tudalen 8

Anwen ar y brig!

Anwen Butten, Cwmann sydd newydd ddychwelyd o Gêmau'r Gymanwlad yn Delhi, India lle enillodd Fedal Efydd yn y gystadleuaeth Bowlio yn cynrychioli Cymru.

Yn y llun mae Hannah Smith o Gaerfyrddin a oedd yn chwarae gyda hi yn y gystadleuaeth.

Fe gefais brofiad arbennig iawn yn Delhi yn rhan o Dîm Cymru yng Ngêmau'r Gymanwlad. Yr oedd yna 6 dyn a 6 menyw yn nhîm bowlio Cymru ac fe roeddwn i yn chwarae yng nghystadleuaeth y parau gyda Hannah Smith o Gaerfyrddin. Fe fues allan yn Delhi am dair wythnos, yr wythnos gyntaf yn ymarfer ac yn cyfarwyddo â bywyd twym yn India! Ac wedyn, dechrau cystadlu am wyth diwrnod. Roeddwn yn chwarae allan yn y gwres am tua 5-6 awr bob dydd. Chwarae deg gêm er mwyn cyrraedd y tri uchaf yn ein grŵp a mynd trwyddo i'r rowndiau terfynol! Wedyn ennill yn erbyn Seland Newydd yn rownd y wyth olaf, colli yn erbyn Malaysia yn y rownd cyn derfynol a wedyn ennill yn erbyn Awstralia yn y gêm i ennill y fedal efydd!

Roedd yn brofiad arbennig cael aros ym mhentref yr athletwyr a bod yn rhan o fwrlwm y gêmau! Y profiad gorau i gyd ar ôl y gwaith caled o ymarfer, cystadlu ac ennill medal oedd gweld baner y ddraig goch yn cael ei chodi! Mae hefyd yn brofiad grêt cerdded mewn i'r seremoni agoriadol yn rhan o dîm Cymru.

Roedd yn brofiad byth gofiadwy ac yn hyfryd dod nôl i Gymru fach â medal efydd o'r Gêmau!

COFIWCH

Dydd Sul y Cofio 14.11.10
Plant Mewn Angen 19.11.10

Cyflwyno siec am £8,000

Yn dilyn llwyddiant arbennig Sioe Cwmsychbant a gynhaliwyd yn gynharach eleni, cyflwynodd y Llywydd Dennis Davies siec o £8,000 i Gyd-Ymatebwyr Brigad Dân Llambed. Cyflwynwyd y siec yn ystod eu cinio blynyddol yng Ngholeg Prifysgol Llambed. Diolch i bawb am eu cefnogaeth. Yn y llun, o'r chwith, mae John Jones, Trys.; Wendy Jenkins, Ysg.; Sian Jones, Ysg. a Luned; Aled Roberts, Brigad Dân; Hefin Jenkins, Cadeirydd; Aled Morgan, Brigad Dân; Dennis Davies, Llywydd; Glyn Jones, Tim Dicker, Rheolwr Gorsaf. Huw Rowcliffe a Paul Barrett, Brigad Dân. Hefyd y plant - Beca, Lois ac Owain.

Siaradwyr o fri gyda'r C.Ff.I.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion yn Felinfach. Llanwenog a enillodd y cwpan am y marciau uchaf. (Nid yw pob cystadleuydd yn y llun).

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion yn Felinfach. Sioned Davies, C.Ff.I. Llanwenog yn ennill tarian y Cadeirydd gorau dan 16 oed.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion yn Felinfach. Enfys Hatcher, C.Ff.I. Llanwenog yn ennill cwpan y siaradwr gorau dan 26 oed.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion yn Felinfach. Einir Ryder, C.Ff.I. Pontsian yn ennill cwpan y Cadeirydd gorau dan 26 oed.

Cystadleuaeth Siarad Cyhoeddus Saesneg CFfI Ceredigion yn Felinfach. Marian Thomas, C.Ff.I. Llanwenog yn ennill tarian y diolchydd gorau dan 16 oed.

Gorsaf Brawf MOT

GAREJ BRONDEIFI

Heol Llanfair Road, Llambed, SA48 8JX

* Gwasanaeth trwsio ac atgyweirio
* Teiars am brisiau cystadleuol
*Ceir newydd ac ail law ar werth
* Batris * Brecs * Egsost
*Gorsaf Brawf MOT Ceir a Beiciau Modur

Peiriant Golchi Ceir Poeth

01570 422305

07974 422 305

YSWIRIANT FUW

Yswiriant Fferm, Busnesau, Ceir a Thai

FUW UNDEB AMAETHWYR CYMRU

Arbenigedd lleol
Polisïau at bopeth
Prisiau cystadleuol
Tawelwch meddwl

Dewch i drafod eich anghenion gyda

Alan Jacob 07968 371823 / 01570 481361

neu

Gwion James 07980 608337 / 01570 480623

Yn swyddfa **Yswiriant FUW, Sgwar y Mart, Llanybydder**

Mae Undeb Amaethwyr Cymru wedi ei awdurdodi ai reoli gan Awdurdod y Gwasanaethau Ariannol, yng ngŵyd deuluoedd cyfyngu yswiriant, o dan Rif Cofrestru 308505

Mae CLONC wastad yn chwilio am bobl newydd i helpu.

Hoffech chi ysgrifennu erthygl neu dynnu lluniau?
Hoffech chi weinyddu'r wefan?
Neu beth am waith dylunio?
Rydym yn chwilio am swyddogion hysbysebu a swyddogion gwerthiant.
Allech chi sbario awr y mis wrth ymuno â'r criw ffyddlon sy'n plygu Clonc?

Cysylltwch ag un o'r Bwrdd Busnes er mwyn cynnig eich gwasanaeth os gwelwch yn dda.

Pwy yw pwy?

Golygydd:

Tachwedd a Rhagfyr:	Elaine Davies, Penynant, Llanwnnen	480526
e-bost:	golygydd@clonc.co.uk	
Tîm Golygyddol:	Elaine Davies, Dylan Lewis, Rhian Lloyd a Marian Morgan	
Dylunydd:	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
Swyddog Dosbarthu	Eifion Davies, Afallon, Drefach	480590
e-bost:	bedwyr@btopenworld.com	
Teipyddion	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
	Joy Lake, Llambed	

Gohebwyr Lleol:

Cellan	Meinir Evans, Rhydfechan	421359
Cwmann	Gwyneth Morgan, Llety'r Dderwen	422922
Cwmsychbant	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Llanwenog/Drefach	Mary Davies neu Eifion Davies	
Ffaldybrenin/Ffarmers	Elfyn Davies, Troed y bryn, Ffarmers	01558 650507
Gorsgoch	Eiddwen Hatcher, Tafarn Cefnhafod	434238
Llambed	Janet Evans, Haulfryn	422856
Llanfair	Dan ac Aerwen Griffiths, Pengarn	493407
Llangybi a Betws	Mair Spate, Tŷ Capel Maesyffynnon	493325
Llanllwni	Dewi Davies, Glanafon	480218
Llanwnnen	Meinir Ebbsworth, Brynamlwg	480453
Llanybydder	Menna Jones, Ceginau Lifestyle	480257
Pencarreg	Lynda Thomas, Dolgwm Uchaf	422270

Beth yw beth?

Bwrdd Busnes:

Cadeirydd	Dylan Lewis, Tŷ Cerrig, Cwmann	422349
e-bost:	cadeirydd@clonc.co.uk	
Is-Gadeirydd	Marian Morgan, Glasfan, Drefach	480490
Ysgrifenyddes	Mary Davies, Maesglas, Drefach	480015
Trysorydd	Nia Davies, Maesglas, Drefach	480015
e-bost:	ysgrifennydd@clonc.co.uk	
Ceidwad y Camera	Janet Evans, Haulfryn, Llambed	422856
Ffotograffydd	Tim Jones, Llainwen, Llambed	422644
Argraffwyr	Gwasg Aeron, Aberaeron	01545 570573

Gwerthfawrogir gwaith pob gwirfoddolwr a sicrhaodd ymddangosiad y rhifyn hwn o Clonc. Os hoffai eraill ymuno â'r tîm, cysylltwch ag aelod o'r bwrdd busnes. Mae cyfraniad pob un yn bwysig.

- Dyma gyfeiriad gwefan Clonc: **www.clonc.co.uk** os am fwy o wybodaeth.
- Beth am ddod yn ffrind i Clonc ar wefan gymdeithasol facebook: **www.facebook.com/clonc**
- Sicrhewch newyddion eich ardal chi yn Clonc. Peidiwch â meddwl y bydd rhywun arall yn gwneud. Mae'n rhy hwyr i feio neb os nad yw rhywbeth yn ymddangos yn CLONC.
- Ewch â'ch newyddion at eich gohebydd lleol, neu ebostio golygydd@clonc.co.uk
- Gellir gadael newyddion tu ôl y cownter yn siop bapurau Caxton Hall, Llambed.
- E-bostiwch eich eitemau ar gyfer y dyddiadur i ysgrifennydd@clonc.co.uk
- Mae croeso i chi ddefnyddio eich camera eich hun. Defnyddiwn luniau o gamera cyffredin lliw, a du a gwyn. Ni fyddwn yn dychwelyd lluniau os na fyddwch wedi gwneud cais am hyn ar gefn y llun. Croesawn luniau digidol ar CD, cofbin USB, ac e-bost cadeirydd@clonc.co.uk
- Danfonwch lun o'ch ffôn symudol i 07837 447122 (bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn).
- Gofynnwn am dâl o £5.00 am roi "Diolch" yn y papur.
- Gellir tanysgrifio i Clonc am £15 yn unig y flwyddyn. Cysylltwch â'r ysgrifenyddes.
- Nid yw'r golygydd o reidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn yn y papur hwn.

Siprys

Boddhad!

Braf oedd cael bod yn un o'r gynulleidfa yn Ysgol Uwchradd Llambed yn gwylio perfformiad o 'Annie'. Roedd y cyfan yn glod i'r athrawon a'r plant. Hyfryd oedd gweld cynifer ar y llwyfan a phob un i weld wedi mwynhau, hyd yn oed y ci. Bydd cymryd rhan yn aros yn y cof am weddill eu hoes. A* arall i'r ysgol. Da hefyd oedd gweld plant yr ysgol gynradd yn cymryd eu lle ar ddechrau'r perfformiad – prawf fod cyfuno'r ddwy ysgol yn gweithio.

Dameg o'r newydd.

Ambell i bregeth Cwrdd Diolchgarwch sy'n destun siarad am ddiwrnodau wedyn. Dyna gawsom yn ddiweddar gan y Parch John Gwilym Jones pan lwyddodd i droi y ddamwain yn Chile yn ddameg fodern. Roedd y cyfan yn dod i ben ar y pryd gan fod y wyrth o godi'r mwynwyr o'u caethiwed ar ddechrau. Clywais un a oedd wedi clywed y bregeth noson ar ein hôl ni yn dweud, "Rwyf wedi difaru na fuaswn wedi gallu recordio'r bregeth." Roedd gweld y weithred o achub y rhain ar y teledu a'u clywed yn siarad am eu profiadau, ac yn diolch am yr arweiniad gawsant, yn gwireddu cynnwys y ddameg fodern. Diau fod gan bob un ohonom ein hatgofion am glywed pregethau sy'n dal i aros yn y cof. Diolch amdanynt.

Pa mor Bwysig yw S4C i chi!

Dyma oedd cwestiwn a dderbyniais ar e-bost y bore yma.

I fi, mae'r ateb yn syml. Dyma'r sianel sy'n cael blaenoriaeth ac rydym fel teulu yn gwylio yn rhwydd 80% o'r rhaglenni. Yr eithriad yw ail - ddangosiad rhaglenni; pryd hynny fe chwiliwn am raglen ar sianel arall.

Rwy'n sicr fod canran helaeth iawn o drigolion dalgylch 'Clonc' yn gwneud yr un peth. Yr ydym wedi mynd i gymryd y sianel yn hollol ganiataol, ac er mai ychydig iawn, iawn fydd yn protestio mae'r mwyafrif yn bles â'r hyn a dderbyniwn. Er rhaid cofio, mae'n amhosibl plesio pawb

'Welsh Not'

Ydi'r Senedd yn San Steffan am ddiystyru Cymru yn gyfan gwbwl? Mae nifer o ddigwyddiadau yn y wasg ac ar y cyfryngau yn ddiweddar yn gwneud i ddyn feddwl bod 'cleddyfau'r' Senedd am ein gwaed. Colli'r Swyddfa Drwyddedu i ddechrau, dim datblygu yn Sain Tathan, a'r modd y cawsom ein trin parthed S4C yn hollol gywilyddus. Beth yw'r meddwl y tu ôl i hyn i gyd? Ein talu'n ôl am fynnu'r Cynulliad? Gobeithio nad yw'r criw sy'n llywodraethu yn hollol ddi-hid am ein gofynion ni fel pobl; nid Brad y Llyfrau Gleision unwaith yn rhagor. Gobeithio y dysgant fod yna dipyn o wahaniaeth wrth ddod dros Glawdd Offa.

Hwyl, *Cloncyn*

Swydd ym Mhatagonia am 10 mis?

Tegid a Nant Roberts
'Arwel',
Llanrug,
Caernarfon,
Gwynedd.
LL55 3BA
01286 870760 tr@roberts485.freeserve.co.uk

Annwyl Olygydd,

Ysgol yr Hendre – Trelew, Chubut
Patagonia – Yr Ariannin

Rydym yn chwilio am athro/athrawes Cymraeg, sydd wedi derbyn hyfforddiant ar gyfer addysgu mewn Ysgol Gynradd i weithio am 10 mis yn Ysgol yr Hendre yn ninas Trelew ym Mhatagonia. Bydd y tymor addysgu yn cychwyn ym mis Mawrth ac yn dod i ben ym mis Rhagfyr, gyda phythefnos o wyliau ym mis Gorffennaf.

Mae Ysgol yr Hendre yn cynnig gwersi trwy gyfrwng y Sbaeneg yn ogystal â thrwy gyfrwng y Gymraeg. Blwyddyn 4 yw'r dosbarth uchaf ar hyn o bryd, ond o fis Mawrth 2011, bydd yr ysgol yn cynyddu i gynnwys Blwyddyn 5. Ystod oed y disgyblion yw 3 i 10, ond nid ydynt yn siarad Cymraeg gartref. Mae'r system addysg ym Mhatagonia yn wahanol iawn i'r drefn o addysgu sy'n bodoli yng Nghymru. Yr ydym felly yn chwilio am berson brwdfrydig, sydd yn hoffi gweithio gyda phlant, ac sy'n abl i weithio'n hyblyg mewn amryw o wahanol sefyllfaoedd.

Bydd y sawl a benodir yn cydweithio yn yr ysgol gydag Athrawes Sbaeneg, a disgwylir iddo/iddi fod yn barod i ymgymryd â gwahanol weithgareddau allgyrsiol gyda phlant yr ysgol, fel Eisteddfodau a nosweithiau llawen.

Bydd y diwrnod gwaith yn cychwyn am 8 y bore ac yn gorffen am 4 y pnawn. Darperir cinio canol dydd yn yr ysgol.

Bydd yr ysgol yn talu am docyn awyren o Lundain i Drelew. Telir cyflog athro/ athrawes ar raddfa tâl y Wladfa. Darperir llety a bwyd gyda theulu o'r ardal, o bosib yng nghartref un o'r rhieni sydd â phlentyn yn mynychu'r ysgol.

Os oes gennych chi ddiddordeb yn y swydd, neu os ydych chi am dderbyn mwy o fanylion cysylltwch â'r ysgol a/neu anfonwch eich CV at: ysgolyrhendre@gmail.com

Os am air anffurfiol am y swydd gellir cysylltu hefyd â Tegid a Nant Roberts ar 01286 870760

Diolch ymlaen llaw am eich cydweithrediad.

Tegid a Nant Roberts.

Dyddiadur

ysgrifennydd@clonc.co.uk

TACHWEDD

8 Ivor Lloyd gyda Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.

9 Pedwarawd Sacsoffonau Lunar yng Nghlwb Cerddoriaeth Llambed yn Neuadd y Celfyddydau am 7.30y.h.

12 Cinio Dathlu 70 mlynedd CFfI Felinfach - cysylltwch ag Eirian Williams 07814979503.

12 Noson Sioe Ffasiynau a chaws a gwin gyda 'Lan Llofft' Duet yn Neuadd St.Iago, Cwmann am 7.30y.h., tocynnau yn £10 ar gael o Gylch Meithrin Coedmor neu o Siop Duet 'Lan Llofft'. Yr elw tuag at Gylch Meithrin Coedmor. Dewch yn llu.

12 Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh: 7:30 "Twm o'r Nant" Dr Rhiannon Ifans.

13 Gŵyl Cerdd Dant Glannau Menai ym Mhrifysgol Bangor.

13 Diwrnod Agored Eglwys Llanwenog 'Paned a Chlonc' 2.00 -5.30.

13 Cinio Dathlu ym Mhrifysgol Llanbed am 7.30yh. Llywyddion y noson fydd Mr a Mrs Eric Davies, Ninant a Mr John Jones, Hengae fydd y siaradwr gwadd. Croeso cynnes i bawb. Pris tocyn yw £17.50 ar gael nawr o'r ysgol (01559) 395624 neu Ruth Evans (01559) 395225. Dewch yn llu!

13 Arddangosfa Cynllun Hanes a Chymunedol Llanllwni, Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni o 12 - 4yh

14 Arddangosfa Cynllun Hanes a Chymunedol Llanllwni Neuadd Cymunedol Eglwys Llanllwni o 12 - 4yh

14 Cymanfa Ganu Brenhines a Ffarmwr Ifanc C.Ff.I. Ceredigion yn Eglwys St Ceitho, Llangeitho. Arweinydd: Miss Einir Ryder, Cwmsychbant.

16 C.Ff.I. Felinfach yn cynnal Bingo yn Neuadd Felinfach 7:30 y.h.

20 Eisteddfod C.Ff.I. Cymru yn Neuadd Fawr, Aberystwyth.

21 Clwb Cerddoriaeth Llambed yn cyflwyno Tom Poster ar y Piano yn Neuadd y Celfyddydau am 3.00y.p.

22 Danfon newyddion CLONC i'r golygydd.

23 Mathew Rhys yr actor yn arwyddo ei lyfr newydd yn Sop Sianti yn Aberaeron rhwng 3:00 a 3:45.

23 Noson o goginio gan Sirian Davies yn Festri Capel-y-Cwm am 7:30y.h.

25 Bore Coffi o 10.30y.b tan 12.30y.p yn Eglwys San Pedr, Llanybydder.

26 Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh: "Llanerchaeron" Mrs Janice Thomas 7:30y.h.

26 Ffair Grefftau ac Arddangosfa Flynyddol yn Neuadd y Coroniaid Pumsaint rhwng 2y.p. a 7y.h. Crefftwyr lleol a channoedd o syniadau am anrhegion. Raffl at Gancr y Fron. Te a Coffi.

27 Ffair Grefftau ac Arddangosfa Flynyddol yn Neuadd y Coroniaid Pumsaint rhwng 10y.b. a 4y.p.

27 Arwerthiant Blynyddol Capel Seion, Cwrtnewydd. Agorir gan Mrs Kitty Evans, Nantycaws.

27 Ffair Nadolig yn Neuadd Gymunedol Llanllwni gan Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni o 2y.p hyd 5y.h.

28 Gymanfa Ganu C.Ff.I. Felinfach yn Eglwys Ystrad Aeron.

28 Cyngerdd gan Côr Corisma yng Nghapel Bwlch-y-fadfa, Talgarreg am 7:00y.h.

RHAGFYR

5 Cymanfa Garolau'r Urdd am 5:00y.h. yng Nghapel Brondeifi.

6 Bingo gan Gylch Meithrin a Ti a Fi Llanllwni yn y Belle Vue Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

6 Cynhelir Plygain traddodiadol yng Nghapel y Coleg am 7.00y.h. Lluniaeth i ddilyn. Croeso cynnes i bawb.

8 Cymdeithas Ddiwylliadol Shiloh, Ymweliad: Llyfrgell Roderic Bowen am 2:00y.p.

13 Blodau Nadolig Donald Morgan gyda Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.

28 Taith Clwb Cerdded Plwyf Pencarreg am 10.00y.b. Arweinydd Dr. Lloyd Jones.

IONAWR 2011

10 Janice Thomas yn rhoi hanes Llannerchaeron gyda Merched y Wawr yn Festri Shiloh Llanbedr Pont Steffan am 7.30y.h.

19 Clwb Cerddoriaeth Llambed yn cyflwyno Dave Danford ar Offerynnau Taro yn Neuadd y Celfyddydau am 7.30y.h.

24 Danfon newyddion CLONC at y golygydd.

28 Bingo gan Bwyllgor Mabolgampau Cwrtnewydd yn Neuadd Ysgol Cwrtnewydd.

W.D. Lewis a'i Fab

Masnachwyr Amaethyddol

☎ 01570 422540

Melin Mark Lane, Stryd y Bont, Llanbedr Pont Steffan

Am holl fwydydd a nwyddau amaethyddol, cysylltwch â ni.

Creative Cove

40A Y Stryd Fawr, Llambed, ☎ 421985

Ystod eang o offer swyddfa a deunyddiau celf a chrefft am brisau cystadleuol iawn.

Yn cynnwys:
- Certris inc a deunyddiau cyfrifiaduron eraill, - cardiau cyfarch, - mapiau arolwg ordnans, - deunyddiau postio a phacio, - deunyddiau gwneud cardiau a llyfrau lloffion, - pecynnau crefft i oedolion a phlant, - paent Winsor a Newton, - padiau brasluniau arlunwyr, cynfas a phapur dyfrlliw.

Enwau Lleoedd Lleol

gan David Thorne

Enwau yn ardal Llanybydder a Phencarreg sy'n cael y sylw pennaf y tro hwn.

Nant yr Yrfa

Mae Nant yr Yrfa yn tarddu ar Fynydd Pencarreg ond mae'r elfen 'gyrfa' yn digwydd mewn amryw enwau lleoedd. Ceir Rhandiryryrfa (1625) yng Nghaeo; Rhandiroeddyryrfa (1675) yn Llangadog, Blaenyryrfa yn Llanarthne a Maes-yr-yrfa yn enw ar ysgol uwchradd Gymraeg lewyrchus yng Nghefneithin.

Mae Bwlchyryrfa yn Llanfihangel Ystrad ac yn Llannarth a Cnwcyryrfa yn Nancwnlle. Mae Llannerchyryrfa yn Llanfihangel Abergwesyn yn Sir Frycheiniog; Pantyryrfa yn Henllys, Sir Fynwy.

Mae'n ymddangos mai'r un elfen a geir yn yr enwau hyn i gyd sef 'gyrfa' – enw sy'n digwydd yn y cyfreithiau i ddynodi praidd neu haid neu dorf o greaduriaid. Mae Nant yr Yrfa felly yn dynodi afon lle'r oedd creaduriaid yn torri syched.

Nant Tren

Mae Nant Tren yn codi ym Mlaen Tren i'r gogledd o'r Banc Du ac yn rhedeg heibio i Ryd-ar-dren yn Llanybydder. Enwau lleol eraill sy'n cynnwys yr elfen 'tren' yw Glantren-fach, Glantren-fawr, Coed Tren a Llwyn-tren. Ystyr 'tren' yw 'cryf, nerthol' sy'n ddisgrifiad priodol o afon neu nant ag iddi rediad cryf.

Mae'r un enw yn digwydd, yn ogystal, ar afon sy'n codi ym Maer, Swydd Stafford ac yn llifo i afon Hafren yn Atcham, Swydd Amwythig.

Gwrdy

Gerllaw Rhyd-ar-dren mae'r Gwrdy sy'n digwydd yn elfen mewn sawl enw yn ardal Llanybydder. Mae'r enw Bwlch y Gwrdy yn cael ei nodi yn 1760 ar fap Emanuel Bowen (1714-1767) o dde Cymru. Mae Gwrdy Mawr a Gwrdy Uchaf yn Llanybydder yn cael eu nodi ar fapiau'r Arolwg Ordnans yn 1831. Ond nid yw'r enw yn gyfyngedig i Lanybydder.

Ceir Cefn y Gwrdy (1773) yn Llangwyfan, Sir Ddinbych; mae Plas y Gwrdy yn Trelawnyd, Sir Fflint; mae Nant y Gwrdy yn Llangurig ac yn Llanidloes yn Sir Drefaldwyn ac yn Llannarth yng Ngheredigion; mae Gwrdy yn Llangeitho. Mae'n ymddangos bod Gwrdy yn dalfyriad o 'gweirdy' sef ty gwair.

Aberystruth, Aberystrwyth (Blaenau Gwent)

Roeddwn wedi ystyried trafod yr enw hwn yn y sylwadau a wnes ar ddyrnaid o enwau Blaenau Gwent dro'n ôl. Wnes i dim ar y pryd a bu rhaid imi ateb gerbron un o ddarllenwyr ffyddlon y golofn hon am fy esgeulustod. Y gwir amdani yw mai disodli'r enw Aberystruth a wnaeth Blaenau Gwent – felly roedd yr enw Aberystruth, Aberystrwyth ar un adeg yn y gorffennol yn dynodi plwyf helaeth iawn yn ne-ddwyrain Cymru.

Mae afon Ystrwyth yn codi ar dir fferm Blaenystrwyth ac yn llifo i Ebw Fach ger Blaina. Rwyf wedi cyfeirio at ystyr 'blaen' sef 'ucheldir, tarddle' mewn ysgrif arall yn Clonc, ond mae'r elfen Ystrwyth yn fwy anodd.

Mae'r cyfeiriad cynharaf sy'n cynnwys yr enw yn digwydd yn 1391 – Aberstrewyth yw hwnnw. Ceir 'Aberystrwyth blaeney gwent' yn 1566, ond yn 1575 digwydd Ystwyth yn enw ar yr afon a gallai hwnnw fod yn amrywiad ar Ystrwyth.

'Ystwyth' sef 'dolennog, hyblyg' yn bendant ddigon yw ystyr yr ail elfen yn Aberystwyth, Ceredigion. Disgrifiad o lwybr troellog yr afon.

Mae rhai wedi dadlau bod Ystrwyth yn enw personol ac os felly mae'n enghraifft o enw person yn datblgu'n enw ar afon.

Y tro nesaf, bydd cyfle i ystyried yr enwau Hengeraint, Llaethliw a Gwerngabwd.

Carpedi
Gwyn Lewis
Cyf
Cyflenwi a gosod:
Carpedi a Feinyl, Lloriau Diogel,
Cladinau Wal,
yn ogystal â Gwelyau,
Pennau Gwelyau a Rygiau.
43 Stryd y Bont
LLANBEDR PONT STEFFAN
Ffôn a Ffacs: 01570 423984
Adref: 01570 423349

Cegin Coedlannau
'Bwyd cartref ar gyfer pob achlysur'
* Cacennau pen-blwydd gyda llun (ffotograff)
* Bwffe mawr neu fach
* Danteithion i de
* Pwdinau
* Arlwyo ar gyfer pob achlysur
Sirian Davies, Coedlannau Fach, Cwrtnewydd,
01570 434 243
07815 962 045

REFLEXOLOGY
Gall y driniaeth yma eich helpu, os ydych yn dioddef o'r canlynol:
* Blinder / diffyg egni
* Meigryn
* Sciatica
* Irritable Bowel Syndrome
* Menstural problems
* a mwy
Os am ragor o wybodaeth cysylltwch â Carol Rees
01545 590164
07929 559561

Tim Jones
Ffotograffydd
Llainwen, Rhodfa Glynhebog
Llanbedr Pont Steffan
01570 422644

Oes angen cyngor arnoch?
Mae gennym arbenigedd cyfreithiol mewn sawl maes, megis:-
1. CYFRAITH TIR,
2. EWYLLYSIAU A'U PROFIANT,
3. TRETH ETIFEDDIAETH A MODD I'W LEIHAU,
4. GWAITH LLYS O BOB MATH.
Os hoffech fwy o wybodaeth mae croeso i chwi gysylltu â ni.
Arnold Davies
Vincent Evans
33 Stryd Fawr, Llambed
01570 422517 01570 423244

Colofn y C.Ff.I.

CEREDIGION

Cynhaliwyd pwyllgor blynyddol y Sir yn neuadd Ciliau Aeron ar yr ail ar hugain o Fedi. Cafwyd noson lawn o drafodaethau a diolch i'r holl swyddogion hen a newydd am eu gwaith drwy'r flwyddyn. Bu'n noson lwyddiannus wrth i aelodau, cyn-aelodau a ffrindiau fedru trafod materion y mudiad gyda'i gilydd.

Llongyfarchiadau i glwb Llangwyryfon am ennill y cwpan am y cynnydd mwyaf yn nifer yr aelodau 2009 - 2010.

Siarad Cyhoeddus Saesneg

Cynhaliwyd cystadlaethau siarad cyhoeddus Saesneg y mudiad ar gampws Coleg Felinfach ar nos Iau'r seithfed a nos Wener yr wythfed o Hydref. Cafwyd cystadlu brwd gyda dros 120 o aelodau yn cymryd rhan, ac roedd y safon yn uchel iawn. Diolch i'r beirniaid sef Ms Anwen Francis yn yr adran iau dan 14; Miss Rosalind Bushell yn yr adran dan 16; Mr John Davies yn yr adran dan 21, a Mr Mark Williams AS yn yr adran hŷn dan 26.

Llongyfarchiadau i glwb Llanwenog am ddod yn fuddugol gan ennill Cwpan Her Emrys Jones ar ôl ennill y pwyntiau uchaf ar draws y cystadlaethau. Da iawn i glwb Pontsian am ddod yn ail a Llangeitho yn drydydd.

Cystadlodd 16 tîm yng nghystadleuaeth darllen iau'r sir, a'r llyfr dan sylw oedd 'Private Peaceful' gan Michael Morpurgo. Y tîm buddugol oedd Dihewyd a llongyfarchiadau i Lowri Davies, Dihewyd am ennill y Cadeirydd gorau, a Meleri Morgan, Llangeitho am ennill y darllenydd gorau.

Cafwyd nifer uchel, 13 o dimau, yn cystadlu yng nghystadleuaeth y siarad cyhoeddus dan 16 hefyd. Llongyfarchiadau i Llanwenog a Chaerwedros am ddod yn gydradd gyntaf fel tîm. Y cadeirydd gorau oedd Sioned Davies, Llanwenog, y siaradwr gorau oedd Bethan Green, Caerwedros a Sioned Hatcher, Llanwenog oedd y diolchydd gorau. Llongyfarchiadau mawr i bob un ohonoch!

Yn yr adran ganol dan 21, dyfarnwyd cydradd gyntaf i Llangeitho a Mydroilyn a chydradd drydydd i Pontsian a Llanwenog. Y cadeirydd gorau oedd Hannah Parr, Llangeitho a'r siaradwr gorau oedd Dafydd Morgan, Pontsian.

Yng nghystadleuaeth y siarad cyhoeddus dan 26, cystadlodd 6 tîm. Cafwyd areithiau diddorol a difyrrus iawn. Llongyfarchiadau i Gaerwedros am ennill fel tîm. Y cadeirydd gorau oedd Einir Ryder, Pontsian, a'r siaradwr gorau oedd Enfys Hatcher, Llanwenog. Llongyfarchiadau mawr a phob lwc i'r tîm a fydd yn cynrychioli Ceredigion ar lefel Cymru.

Llongyfarchiadau gwresog i bawb a gystadlodd gan lwyddo i sicrhau dwy noson lwyddiannus o gystadlu safonol. Pob lwc i'r rhai a fydd yn cynrychioli Ceredigion ym mhenwythnos siarad cyhoeddus Cymru ym mis Mawrth.

Cystadlaethau cenedlaethol y mudiad

Llongyfarchiadau i glwb Llangeitho am sicrhau y drydedd safle yng nghystadleuaeth yr arddangosfa sirol ar lefel genedlaethol y mudiad a gynhaliwyd ym Malvern yn ddiweddar. Llongyfarchiadau i'r tîm siarad cyhoeddus Saesneg dan 16 a ddaeth yn drydydd ar y lefel genedlaethol. Tipyn o gamp, da iawn chi!

Barnu ŵyn tew

Ar y 13eg o Hydref cynhaliwyd noson barnu ŵyn tew ar fferm Pontargamddwr, Swyddffynnon dan ofal Hugh Tudor, Tynberllan. Llongyfarchiadau i Llion Davies, Troedyraur am ddod yn fuddugol yn yr adran hŷn a Dyfan Ellis Jones, Llangwyryfon am ddod yn fuddugol yn yr adran iau. Pob dymuniad da i chi wrth i chi gystadlu yn y Ffair Aeaf.

Clwb 200

Enillwyr mis Hydref:

1af – Ifan ac Ann Jones, Llanddewi
2il – Gwyn Davies, Llanddewi
3ydd – Helen Hopkins, Blaenpennal

Dyddiadau i'ch dyddiaduron

8 Tachwedd: Cystadleuaeth Cwis y Sir
10 Tachwedd: Hyfforddiant Barnu Biff
14 Tachwedd: Cyfweliadau teithiau tramor C.Ff.I. Cymru, Llanfair-ym-muallt
14 Tachwedd: Cymanfa Ganu'r Frenhines a'r Ffarmwr Ifanc, Llangeitho
17 Tachwedd: Pwyllgor trefnu digwyddiadau dathlu'r Sir, Tafarn Dyffryn Aeron
18 Tachwedd: Hyfforddiant Barnu Carcas, Lladd-dy Dunbia
20 Tachwedd: Eisteddfod C.Ff.I. Cymru Aberystwyth
29 a 30 Tachwedd: Ffair Aeaf, Llanelwedd

SIR GÂR

Nos Wener, 8fed Hydref 2010, nos Wener 15fed Hydref a dydd Sadwrn, 16eg Hydref 2010 cynhaliwyd Eisteddfod lwyddiannus iawn gan Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ieuainc Sir Gâr yn Neuadd San Pedr, Caerfyrddin.

Bu yna gystadlu brwd gyda C.Ff.I Llanfynydd yn fuddugol ac yn ennill y darian, C.Ff.I.Llangadog yn ail a C.Ff.I. Penybont yn drydydd.

Yn y Darian gwaith cartref C.Ff.I Llangadog oedd yn 1af, Penybont yn 2ail a Dyffryn Tywi a Llanfynydd yn rhannu'r 3ydd wobr.

Yn fuddugol yng nghystadleuaeth y Stori fer ac yn ennill Cadair y Sir eleni oedd Miss Meinir Jones, C.Ff. I Llanfynydd. Roedd y gadair eleni yn rhoddedig gan Mr Owen Davies (Cadeirydd y Sir) a diolch i Mr Dai Thomas, Caerdderwen, Pumsaint am wneud y gadair. Mr. Gethin Thomas oedd yng ngofal Seremoni'r Cadeirio gyda Catrin Thomas, C.FF.I Penybont yn canu Cân y Cadeirio a Mr. Hefin Jones, Llanarthne yn canu'r Corn Gwlad. Miss. Rhian Davies, C.Ff.I Llanllwni; Miss Gwenllian Davies, C.Ff.I Llanarthne; Mr Iestyn Owen, C.Ff.I. Capel Dewi a Mrs Lowri Jones, C.Ff.I Capel Iwan fu yn cyfarch y buddugol. Clwb Ffermwyr Ieuainc Penybont fu yn stiwardio trwy gydol y Steddfod a diolch i Amaethwyr Caerfyrddin a Phumsaint Cyf. am eu cefnogaeth fel noddwyr unwaith eto.

Diolch i Miss Ffion Jones , Llysgenhades y Mudiad a'r Dirprwyon am eu gwaith wrth y siop trwy gydol yr Eisteddfod ac i C.Ff.I Penybont am y lluniaeth i'r beirniaid.

Canlyniadau'r Eisteddfod

Sgets 26 oed neu iau - Dyffryn Cothi 1af
Llefaru 26 neu iau - Bethan Griffiths, Dyffryn Cothi 1af
Unawd 16 neu iau - Carys Haf, Dyffryn Cothi 3ydd
Llefaru 21 neu iau - Rhian Davies, Llanllwni 3ydd
Parti Llefaru 2 neu iau - Llanllwni 2ail
Adrddiad Digri 26 neu iau - Rhian Davies Llanllwni 1af
Deuawd – 26 ne iau - Carys Haf & Sara Mair Dyffryn Cothi 3ydd
Meimio i Gerddoriaeth - 26 neu iau - Llanllwni 3ydd
Deuawd Doniol - 26 neu iau - Deian Thomas ac Endaf Griffiths Dyffryn Cothi 3ydd
Parti Unsain 26 neu iau - Dyffryn Cothi 1af

GWAITH CARTREF

Stori Fer 26 neu iau - Gwennan Evans, Dyffryn Cothi 2ail
Cerdd - 26 neu iau - Gwennan Evans, Dyffryn Cothi 1af ac Endaf Griffiths, Dyffryn Cothi 2ail
Cystadleuaeth i aelodau 21 neu iau - Iestyn Russell, Cwmann 3ydd
Celf - 26 neu iau - Eirwyn Thomas, Cwmann 3ydd

Drefach a Llanwenog

Ysgol Gynradd Gymorthedig Wirfoddol Llanwenog

Bore Sul y 3ydd o Hydref, yng nghanol y glaw, cynhaliwyd Ras Hwyl Llanwenog. Daeth nifer o blant cynradd i redeg ras y filltir i Sgwâr Brynteg ac yn ôl. Braf hefyd oedd gweld cymaint o oedolion yn rhedeg y ras 6 milltir. Llongyfarchiadau mawr i'r rhedwyr buddugol.

Diolch yn fawr iawn i Mr Pat O'Keeffe a'r teulu o Teifi Concrete a noddodd y tariannau ac i deulu Mr a Mrs C Davies, Fronheulog am noddi'r medalau i bob cystadleuydd. Diolch i rieni'r Ysgol a'r Cylch Meithrin am eu cefnogaeth ddiflino ar y diwrnod. Bu'n ŵyl lwyddiannus iawn ac edrychwn ymlaen at ei chynnal yr un dyddiad y flwyddyn nesaf eto.

Cynhaliwyd etholiad yn ystod y tymor a dewiswyd saith disgybl newydd i'n Cyngor Ysgol sef Kurtis Davies, George Greenfield, Lowri Davies, Gwen Thomas, Chloe Cox, Dewi Lloyd a Sara Thomas. Edrychwn ymlaen at gael rhannu eu syniadau a'u brwdfrydedd unwaith eto eleni.

Croesawn Mrs Mair Heulyn Rees i'n plith yn Athrawes Fro newydd i'r ysgol. Rydym yn ffodus i dderbyn ei harbenigedd yn rheolaidd. Dymunwn ben-blwydd hapus iawn i Mrs Liz Mills ar ei phen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Dymunwn bob lwc i Nancy Dolye, disgybl o flwyddyn 6 a fydd yn mynychu Ysgol Breswyl yn Ludlow y tymor nesaf.

Braf yw croesawu yn gynnes y Parchedig S Bale i'n plwyf. Mae hi eisoes yn ymweld â ni yn wythnosol drwy gymryd gwasanaeth ysgol. Dymunwn yn dda iawn iddi yn ystod ei chyfnod yn fugail yn ein plith. Dydd Mercher y 6ed o Hydref cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yn Eglwys Santes Gwenog â'r Ficer S Bale yn annerch. Cyflwynodd y plant eu gwaith yn ganmoladwy iawn a diolch iddynt am eu rhoddion caredig a rannwyd rhwng Cartref Maesyfelin a Chymdeithas Gofal Ceredigion, sef elusen i'r digartref.

Erbyn hyn mae Mr Arwel Evans wedi sefydlu Clwb TGCh yn yr ysgol sydd yn cyfarfod bob yn ail nos Fercher i ddisgyblion yr Adran Iau. Ar hyn o bryd maent yn dysgu crefft animeiddio. Cynhelir hefyd Glwb Chwaraeon bob yn ail nos Lun. Mae'n braf cael cyfle i gadw'n heini yn yr awyr iach gyda'r disgyblion.

Yn ystod y tymor mae artist lleol, sef Mr Leighton Williams wedi bod yn cynnal gwersi Celf arbenigol i ddisgyblion yr Adran Iau. Maent wrth eu boddau yn derbyn hyfforddiant a chanllawiau wrth arbenigwr yn y maes. Edrychwn ymlaen at ei ymweliadau pellach yn ystod y tymor nesaf.

Llongyfarchiadau mawr iawn i dair aelod o staff yr Ysgol a redodd Hanner Marathon Caerdydd yn ddiweddar, sef Miss Heddwen Davies, Ms Eleri Davies a Mrs Angharad Hull. Da iawn chi ferched!

Dyddiadau:

Tachwedd y 9fed: disgyblion blwyddyn 5 yn coginio swper 3 chwrs yn Ysgol Gynradd Llanwenog am 5.30yh. Croeso cynnes i bawb. Pris £4 i oedolion, £1 i blant cynradd, £2 i blant uwchradd.

10fed o Dachwedd: Cyfarfod blynyddol Llywodraethwyr a Rhieni am 7.00yh.

Cylch Meithrin Gwenog

Mae Cylch Meithrin Gwenog yn cynnal cystadleuaeth arbennig i gynllunio logo newydd i'r cylch. Mae croeso cynnes i blant cynradd yr ardal gystadlu. Bydd gwobr o £10 a chyflwyniad gan gymeriad arbennig o Bentre Bach i'r enillydd yn ystod mis Rhagfyr. Danfonwch eich ceisiadau at:

Ms Mair Jenkins, Cylch Meithrin Gwenog, Llanwenog, Llanybydder, SA40 9UU. Dyddiad cau: 1af o Ragfyr.

Gwasanaeth Sul y Cofio

Cynhelir Gwasanaeth Sul y Cofio ger y gofeb yn Nrefach am 1:00y.p.

Croeso cynnes i bawb.

Y Gymdeithas Hŷn

Daeth 16 o aelodau ynghyd i Festri Capel-y-Cwm ar y 13eg o fis Hydref, a chroesawyd hwy yn gynnes i'r Cyfarfod Blynyddol gan y cadeirydd, Dilwen George, gan ddiolch yr un pryd i aelodau'r capel am eu croeso.

Cydymdeimlwyd â'r aelodau a oedd wedi bod trwy brofedigaethau, a dymunwyd yn dda i bawb a oedd wedi bod mewn ysbyty neu yn anhwylus yn ddiweddar.

Darllenwyd cofnodion Cyfarfod Blynyddol 2009, a chynigwyd eu bod yn gywir gan Beryl Lewin gydag Irene Jones yn eilio.

Paratowyd mantolen drylwyr o'r materion ariannol i bawb gan Annie Bowen, ac esboniodd y cyfan wrth ddarllen drwyddynt. Diolchwyd iddi gan y Cadeirydd, ac hefyd i Beryl Lewin am ei help hithau.

Materion yn codi:- gan fod y tripiau yn costio tipyn yn fwy na'r arian sy'n dod fewn, cynigiodd Eifion Davies bod pris y tripiau yn codi £1. Eiliwyd hynny gan Dai Davies.

Felly bydd pris trip i'r aelodau yn £9, ac yn £10 i ffrindiau eraill.

Cynigodd y trysorydd bod pris aelodaeth yn aros yr un peth, ac fe eiliwyd y cynnig gan Jean Evans.

Yn ei hadroddiad blynyddol, rhoddodd y Cadeirydd fraslun o gyfarfodydd y gaeaf a'r gwanwyn ac o dripiau'r haf, gan obeithio bod pawb wedi mwynhau. Braf oedd gweld ffrindiau newydd ar y tripiau, a gobeithiai y byddent yn mynychu'r cyfarfodydd yn ogystal.

Cynigwyd gan Eifion Davies bod y swyddogion yn cael eu hailethol, ac fe eiliwyd hynny gan Jim Evans,

Felly: Cadeirydd:-Dilwen George; Is-gadeirydd: Irene Jones; Trysorydd: Annie Bowen;

Ysgrifennydd: Yvonne Davies

Trefnwyd Rhaglen y Gaeaf, a gobeithir medru cwrdd yn y mannau canlynol:-

Tachwedd 10 - Brynteg, Rhagfyr 8, Drefach; Ionawr 12 - Eglwys Llanwenog; Chwefror 9 - Capel y Groes; Mawrth 9 - Ysgol Cwrtnewydd - Adloniant Gŵyl Dewi.

Bydd yr aelodau yn cael eu cinio Nadolig ar Tachwedd 24ain, ond dyw'r lle heb ei bennu eto.

Wedi cwblhau'r gwaith swyddogol, mwynhawyd lluniaeth ysgafn wedi ei pharatoi gan wragedd Capel-y-Cwm. Diolchwyd yn gynnes iddynt gan Mair Williams.

Eglwys Santes Gwenog

Nos Lun 4ydd o Hydref cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Eglwys. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan ein hoffeiriad gwadd sef y Parchedig Dafydd Aeron. I ddilyn aeth nifer dda o'r addolwyr i'r Eglwys fach i fwynhau swper blasus iawn wedi'i baratoi gan wragedd yr eglwys. Diolchodd y Parch Suzie Bale i bawb a fu'n gysylltiedig naill ai yn addurno'r eglwys neu'n paratoi'r swper. Diolchodd yn arbennig i'r Parch Dafydd Aeron am ei neges dymhorol ac i Mrs Pauline Roberts-Jones am ei gwasanaeth wrth yr organ ac i bawb am eu cefnogaeth.

Dydd Mercher wedyn daeth nifer dda o rieni a ffrindiau i wasanaeth Diolchgarwch plant Ysgol Llanwenog. Yn ôl eu harfer cyflwynodd y plant eitemau ar lafar, ar gân ac ar offerynnau. Diolchwyd i'r brifathrawes Ms Heddwen Davies a'r staff am eu gwaith caled. Trosglwyddwyd y casgliad i elusen 'Trychineb Pacistan'. Yn cloi gwasanaethau diolchgarwch y flwyddyn cafwyd noson hwylus gan aelodau C.Ff.I. Llanwenog. Bu'r Parch Suzie Bale yn eu hannerch ar ffurf 'Cwis'. Bu dyfalu brwd, ond roedd yn amlwg fod yr aelodau'n wybodus iawn. Mrs Caroline Davies oedd yr organyddes.

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Lynne Goodall, Sychbant yn ei hiraeth o golli ei thad. Yr oedd Mr Sam Weaver yn 97 oed a bu'r angladd yn yr Eglwys ar 18fed o Hydref gyda'r Parch Suzie Bale yn gweinyddu. Talwyd teyrnged deimladwy i Mr Weaver gan ei ŵyr, Mr Andrew Goodall. Mrs Pauline Roberts Jones a Mrs Mary Thomas oedd wrth yr organ.

Ar nodyn fwy hapus, llongyfarchiadau i aelodau'r C.Ff.I. ar eu llwyddiant yn ennill y darian am y pwyntiau uchaf yn y gystadleuaeth Siarad Cyhoeddus; hefyd i Sioned Davies y Cartws ar ennill tarian y Cadeirydd gorau.

Dymunwn yn dda i Miss Gwennan Davies, Llysderi ar ei hapwyntiad i swydd yn Adran Gynllunio, Cyngor Sir Ceredigion.

Cofiwch am 'Paned a Chlonc'- ein 'Te Fictoraidd', ar y 13eg o Dachwedd o 2.00 hyd 5.30 o'r gloch. Bydd Calendr yr Ŵyl Flodau ar werth, anrheg ffafriol ar gyfer y Nadolig. Byddwn yn cyflwyno hanner yr arian a wneir ar y raffl i 'Ambiwlans Awyr Cymru'.

Dymunwn adferiad buan i bawb sy'n anhwylus yn yr ardal.

C.Ff.I. Llanwenog

Dechreuwyd y mis gyda noson o hwyl yn chwarae gêmau tafarn yng Nghefenhafod. Cafodd pawb gyfle i chwarae darts, pŵl, 'tip-it' a dominos. Diolchwn i Geraint ac Eiddwen am y croeso cynnes.

Bu'r clwb yn cystadlu yng nghystadleuaeth gynta'r sir am y flwyddyn, sef y Siarad Cyhoeddus Saesneg. Cafwyd gryn dipyn o lwyddiant dros y ddwy noswaith.

Dyma'r canlyniadau.

Dan 14 - 2il Rhys Davies - Cadeirydd

Drefach a Llanwenog

Dan 16 - 1af Marian Thomas – Diolchydd; 1af Sioned Davies – Cadeirydd; 2il Gwawr Hatcher – Cadeirydd.

Cafodd Marian Thomas, Sioned Hatcher a Sioned Davies y cydradd gyntaf fel tîm yn y gystadleuaeth.

Dan 21 - 2il Enfys Hatcher – Cadeiryddes. Cipiodd y tîm gydradd drydydd gyda Enfys a Gethin Hatcher, Siwan a Catrin Davies.

Dan 26 - 1af Enfys Hatcher – Siaradwraig; 2il Lowri Wilson – Cadeiryddes; Cydradd 3ydd Cerys Jones ac Arwel Jenkins - Siaradwyr

Cafodd y ddau dîm ail a thrydydd.

Erbyn diwedd yr ail noson daeth llwyddiant i Glwb Llanwenog wrth gipio'r wobr gyntaf am y clwb â'r pwyntiau uchaf. Llongyfarchiadau mawr i bawb a fu'n cystadlu a diolch i'r rhai a fu yn eu hyfforddi.

Cynhaliwyd noson o gêmau hwyliog gan Paul a Menna Jones yn Ysgol Llanwenog pan fu dau dîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd mewn gêmau llond hwyl a sbri. Diolch i'r ddau am roi o'u hamser i'n diddanu.

Eleni cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch blynyddol yn Eglwys Llanwenog. Braf oedd gweld cynifer o aelodau hŷn ac iau yn bresennol. Diolch i'r Parchedig Suzie Bale am ei hanerchiad pwrpasol. Dosbarthwyd rhoddion o ffrwythau a llysiau i Gartref Maesyfelin, Drefach.

Mae CLONC ar werth yn:
Awen Teifi, Aberteifi
Caxton, Llambed
Compton, Llanybydder
Co-op, Llambed
Eryl Jones, Llambed
Garej Checkpoint, Harford
Garej LFS Llandeilo
Glennydd, Cwrtnewydd
Siop Gomerian, Llandysul
Inc, Aberystwyth
J H Williams, Llambed
Lomax, Llambed
Medical Hall, Tregaron
Siop y Bont, Llanybydder
Aeron Booksellers, Aberaeron
Siop Llangybi
Siop y Cennen, Rhydaman
Spar, Llanybydder
Swyddfa Bost, Felinfach
Swyddfa Bost, Llanllwni
Swyddfa Bost, Llanwnnen
Swyddfa Bost, Pontsian
Tafarn Cefnhafod, Gorsgoch
Tafarn Glanyrafon, Talgarreg
t-hwnt, Caerfyrddin
W D Lewis a'i Fab Pumsaint

a thrwy danysgrifio.
Cysylltwch â:
ysgrifennydd@clonc.co.uk

D & C Rallying

Rhif Ffôn 01570 434 555 / 07973 420 664
CEIR - FANIAU - CERBYDAU 4x4

Gwasanaethu ac atgyweirio o bob math
a pharatoi eich car ar gyfer MOT

*** Teiars o bob math * Olew * Filteri * Batris * Brêcs ***

Am bopeth i'ch car, dewch yma aton ni
Tanrhos, Cwrtnewydd, Llanybydder Ceredigion, SA40 9YN

Cwrtnewydd

Ysgol Cwrtnewydd
Canlyniadau Clwb 100 - Hydref 2010

1af – Ceiron Pollock, Brynmeddyg, Cwmsychbant
2ail – Mrs Beti Jones, Ger y Nant, Tŷ Mawr, Llanybydder,
3ydd – Lyn Jenkins, Haulfryn, Rhydowen
4ydd – Debby & Paul, Dolgrannod, Cwrtnewydd.

Daeth Clwb Cyw draw i'r ysgol i ffilmio cyfres o raglenni a fydd yn cael eu darlledu ar Cyw yn ystod y misoedd nesaf. Braf oedd croesawu Gareth a'i griw i'r ysgol. Roedd y plant wedi mwynhau'r profiad yn fawr iawn ac edrychwn ymlaen i'w gweld ar S4C.

Dyddiadau'r rhaglenni fydd 23ain Hydref (ail ddarlledu 8fed Ionawr); 31ain Hydref (ail ddarlledu 16eg Ionawr) a 13eg Tachwedd (ail ddarlledu 29ain Ionawr). Bydd y rhaglenni yma yn cael eu darlledu rhwng 7 a 9 y bore.

Bu plant blynyddoedd 4, 5 a 6 yn gwylio perfformiad o Annie yn Ysgol Uwchradd Llanbed. Hyfryd oedd gweld nifer o gyn ddisgyblion Ysgol Cwrtnewydd yn y sioe.

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yn neuadd yr ysgol a bu'r plant yn canu ac yn llefaru am bwysigrwydd y Cynhaeaf. Cafwyd anerchiad pwrpasol gan y Parchedig Wyn Thomas. Cafwyd cawl ar ôl y gwasanaeth a oedd wedi ei baratoi gan y plant. Rhannwyd y rhoddion o ffrwythau a llysiau gyda thrigolion Allt-y-Mynydd.

Bu cwmni drama mewn addysg Arad Goch yn yr ysgol yn perfformio a chynnal gweithgareddau ar gyfer y dosbarth bach. Thema'r perfformiad oedd 'O gam i gam' ac fe fwynhaodd pawb y sioe a berfformiwyd y tu fewn a'r tu allan i'r ysgol. Daeth criw o blant ysgol Pontsian i ymuno yn y gweithgareddau.

Trefnwyd diwrnod gwisg gan y Cyngor Ysgol i godi arian at achosion dyngarol yn dilyn dilyw Pacistan. Codwyd swm da iawn o £66.28. Da iawn chi, blant! Cafodd plant yr Urdd eu tywys o amgylch argraffdy Gwasg Gomer gan Mr John Lewis. Gwelwyd y broses o greu llyfr o gysodi at osod y clawr.

Cynhelir Sioe Nadolig yr ysgol ar y 16eg o Ragfyr yn Neuadd yr Ysgol. Mae croeso mawr i bawb fel arfer.

Gwellhad Buan

Dymunwn wellhad buan i Mrs Jean Davies, Werndeg ar ôl iddi dreulio rhai diwrnodau yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Deallwn hefyd bod Mrs Ray Evans, Brynhogfaen ar hyn o bryd lawr gyda'i merch Ann ger Caerfyrddin gan ei bod hithau hefyd yn anhwylus.

Gwellhad buan hefyd i Mrs Anne Thomas, Milford ar ôl ei llawdriniaeth yn ddiweddar.

Gobeithio y byddwch eich tair yn well yn fuan.

Priodas Ddiemwnt

Yn ystod diwrnodau cyntaf mis Tachwedd fe ddathlodd Walter a Sally Harries, Clarence House eu Priodas Ddiemwnt – ie, 60 mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a da iawn chi a gobeithio i'r dathlu fod yn gofiadwy.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Mrs Catherine Jane Davies, Glennydd a theulu Gwalia ar golli mab yng nghyfraith, brawd yng nghyfraith ac ewythr, sef Roy Evenden o Gapel Dewi a fu farw yn ystod y mis. Cofiwn hefyd am Hannah ei wraig a'r teulu yng Nghapel Dewi.

Ŵyr newydd

Llongyfarchiadau i Mrs Getta Evans, Melrose [ond sydd ar hyn o bryd yng Nghartef Maes-y-felin] ar ddod yn fam-gu unwaith yn rhagor gan fod Elfryn ei mab a Julie yn Llanllwni wedi cael mab bach newydd.

Ceris Morgan
yn trin gwallt yn eich cartref

Torri a sychu, steilo a lliwio, cwrlo a gosod gwallt ar gyfer achlysuron arbennig.

Prisau rhesymol.
Ffoniwch: 07738 492613
Cwmann
ond yn barod i deithio'r ardal.

Cefn-hafod
Gorsgoch
☎ 01570 434238

Dewch i fwynhau mewn awyrgylch Gymreig a chartrefol. Cewch ddewis eang o fwyd cartref blasus a chwrw da. Cinio dydd Sul o 12 tan 2:00y prynhawn hefyd.

Croeso cynnes oddi wrth Geraint, Eiddwen a'r teulu.

Arbenigwyr mewn bariau symudol at unrhyw achlysur allanol a dawnsfeydd ysgubor.

Cwmann

Caersalem, Parcyrhos

Irene Price, Gelliwrol yn cael ei hurddo yn ddiacon yr Eglwys mewn oedfa a gynhaliwyd ar 3 Hydref 2010. Yn y llun gwelir Mesach Williams, Trysorydd a Diacon; Tommy Price; Irene Price a'r Gweinidog Y Parch Jill Tomos.

Diolch

Dydd Sul 17eg o Hydref 2010 ar fore heulog ond oer ym Mae Caerdydd rhedodd Dylan Williams, Wyngarth hanner marathon Caerdydd gyda 15,000 o redwyr eraill! Roedd yn codi arian tuag at yr Asiantaeth Alzheimers. Gorffennodd y ras mewn 1 awr a 52 munud. Mae wedi codi £500 hyd yn hyn a hoffai ddiolch i bawb yn y pentref a wnaeth ei noddi. Mae'n ddiolchgar iawn.

Ysbyty

Da deall fod Jim Brown, Cae Ram yn gwella ar ôl ei lawdriniaeth a hefyd gwellhad buan i Gwen Davies, 2 Nantyglyn ar ôl ei hanffawd yn ddiweddar.

Beicio

Llongyfarchiadau i Aled, Hafod y Gân, Cae Ram ar gael ei ddewis i rasio beic modur a sidecar i Dîm Prydain Fawr a'r Iseldiroedd yng Ngwlad Belg. Dalier ati.

S.Y.M Coedmor

Ar Hydref y pedwerydd aeth yr aelodau i westy Ty Glyn Aeron i fwynhau ein cinio blynyddol a oedd wedi ei drefni gan Gwyneth Morgan ein hysgrifenyddes. Ar ôl mwynhau pryd blasus, treuliwyd noson arbennig yng nghwmni ein gwraig wadd sef Beti Griffiths o Lanilar, person sydd wedi etifeddu dawn unigryw fel siaradwraig ac sydd yn medru cyfleu y llon a'r lleddf. Noson i'w chofio. Diolchwyd yn gynnes iawn i Beti gan ein Is Lywydd Noeleen Davies. Yna cafwyd cyfarfod byr. Dywedodd Elma Phillips ein Llywydd ein bod yn falch gweld Glesni yn ôl gyda ni. Hefyd rydym yn danfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan at ddwy o'n haelodau sydd wedi derbyn llaw driniaeth yn ddiweddar sef Ann Lewis, Bronwydd ac Irene Price, Gelliwrol. Gan mai hwn oedd cyfarfod olaf Elma fel Llywydd diolchodd i'r swyddogion a'r aelodau am eu cymorth a'u cefnogaeth a dymunodd yn dda i Noeleen am y flwyddyn sydd i ddod.

Clwb 125 Enillwyr Mis Hydref 2010

1af, Gwenda Thomas, Cwmann. 2ail, Heber Williams, Parc y Rhos. 3ydd, Edwin Harries, Cwmann. 4ydd, Cara Mair Harries, Cellan. 5ed, Bernard Hardy, Cwmann. 6ed, Eluned Lewis, Cwmann. 7fed, Gwen Jones, Cwmann. 8fed, Avril Williams, Cwmann. 9fed, Heber Williams, Cwmann. 10fed, Marian Evans, Cwmann.

Clwb 250

Enillwyr Mis Medi: 1af, Eirwyn Jones, Cwmann. 2ail, Dai Jones, Llanybydder. 3ydd, Tom James, Cwmann. 4ydd, John Davies, Cellan. 5ed, Phyllis Smith, Llanbedr Pont Steffan. 6ed, Kevin Doyle, Cwmann. 7fed, Edwin Harries, Cwmann. 8fed, Tegwen Morris, Cwmann. 9fed, Vera Edwards, Pencarreg. 10fed, Besie Lloyd, Cwmman. Enillwyr Mis Hydref: 1af, Brenda Luker, Cwmann. 2ail, Eirlys Jones, Cwmann. 3ydd, Carol Powell, Cwmann. 4ydd, Wynford Thomas, Cellan. 5ed, Mrs Fullard, Cwmann. 6ed, Eirian Jones, Llambed. 7fed, Sheila Lewis, Cwmann. 8fed, Myrddin James. 9fed, Gwen Jones, Cwmann. 10fed, John Davies, Cellan.

Ysgol Carreg Hirfaen

Dyma adroddiad Lisa Elan Blwyddyn 4:

Buom yn Castell Henllys. Roedd y gweithgareddau yn hwyl. Yn gyntaf aethom i siarad gyda dyn o'r enw Cai. Roeddem yn siarad am y coed. Fe ddywedodd Cai mai y goeden gryfaf oedd y goeden dderw. Roedd y goeden helyg yn hyblyg iawn fel cas pensil gwag. Wedyn fe aethom lan at y fryngaer ac yna fe fwytaom ein cinio mewn tŷ crwn.

Ar ôl cinio fe gawson ein rhannu mewn grwpiau. Roeddwn yn gweithio efo blwyddyn pedwar a bechgyn blwyddyn tri. Wedyn fe aethon i greu tŷ crwn. Fe ddysgon sut i greu wal. Ar ôl creu wal fe aethom i wneud cymysgedd o ddom anifail, gwaed mochyn, mwd, pridd a mwy. Yna, fe roeddem yn codi y gymysgedd gyda'n dwylo ac yn ei roi ar y wal.

Yna aethom i wehyddu basgedi gyda darnau o goeden helyg. Roedd y bobol yn mynd i gael cawl dail poethion. Y noswaith cyn hynny fe gawson nhw fochyn ac ychydig o fara i fwyta.

Yn olaf, fe aethon ni mewn i dŷ Arianwen ac fe ddysgon sut i wneud bara, Ac fe ddysgon bod y gwenith yn fwy o werth nag aur ac yna fe wnaethom fara brown. Cawsom ein wynebau wedi eu peintio yn las fel patrwm gwahanol dduwiau. Fy mhatrwm i oedd brenin y goedwig. Fe welom groen mochyn gwyllt. Roedd cot y mochyn yn ddu-llwyd. Hefyd roeddwn yn malu blawd.

Fe aethon nol at y bws a mynd adref. Fy hoff beth oedd creu y bara oherwydd roedd yn hwyl a sbri.

Cynhaliwyd ein Gwasanaeth Diolchgarwch yn ddiweddar yn Eglwys St Iago Cwmann. Cafodd y plant i gyd gyfle i gymryd rhan a chodwyd £135 tuag at Gymorth Cristnogol. Diolch i Ficer Strange am y croeso.

Cawsom y cyfle i weld sioe gerdd yr Ysgol Uwchradd sef 'Annie' yn ddiweddar. Roedd y sioe yn arbennig a phawb wedi mwynhau mas draw. Diolch i'r Ysgol Uwchradd am y gwahoddiad.

Mae clwb yr Urdd wedi dechrau a hyd yn hyn mae'r plant wedi mwynhau noson o gêmau amrywiol a gweithgareddau Calan Gaeaf.

Bu Tîm Traws Gwlad yr Ysgol yn llwyddiannus iawn ym mhencampwriaeth Sir Gaerfyrddin yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i Beci Harrison (blwyddyn 5) am ddod yn 4ydd , Sara Jones (blwyddyn 6) am ddod yn 15fed ac i Cari Jones, Ben Davies, Lexie Blyth, Catrin Ashley a Naomi Howell am gymryd rhan.

Mae disgyblion a rhieni Carreg Hirfaen wedi bod yn brysur yn casglu hen ddillad i godi arian at yr ysgol.

Yn rhan o wersi Technoleg blwyddyn 3 a 4 rydym wedi bod yn creu pitsas iach. Cawsom lawer o hwyl yn creu ond llawer mwy o hwyl yn bwyta ein pitsa blasus. Rydym wedi mwynhau ein gwersi technoleg yn fawr iawn.

Dydd Iau, Hydref 14eg aeth blynyddoedd 5 a 6 Carreg Hirfaen i chwarae rygbi tag yn Llandeilo. Aeth tri thîm o Garreg Hirfaen i gystadlu yn erbyn goreuon Sir Gâr.

Roedd yna ugain tîm yn cystadlu ac yn chwarae mewn pedwar grŵp ar bedwar cae gwahanol.

Yr oedd saith plentyn ymhob tîm. Yn un tîm roedd Daniel Harrison, Daniel Thomos, Ewan Bowden, Rupert Geddes, Tomos Jones, Naiomi Davies a Beci Harrison.

Mewn tîm arall roedd Anna Davies, Sara Jones, Mari Lewis, Hari Butten, Iwan Williams, Alwyn Morgan a Ryan Wilcox.

Yn y tîm olaf roedd Cari Jones, Lisa Lewis, Lydia Chalder, Lucy Robinson, Anaite Faulkner, Kieran Price ac Owain Edwards.

Roedd y gêmau i gyd yn gyffrous a chystadleuol a phob un o dimau Carreg Hirfaen yn chwarae yn arbennig. Ar ddiwedd y gêmau grŵp, cyhoeddwyd bod tîm 2 Carreg Hirfaen wedi cyrraedd y Rownd Gynderfynol yn erbyn Ysgol Teilo Sant. Er chwarae'n dda, colli wnaethant a Teilo Sant aeth ymlaen i'r ffeinal.

Diwrnod bendigedig! Rydym yn edrych ymlaen at fynd eto.

Anna a Sara, Blwyddyn 6

Pob lwc i Mrs Fiona Jones ar ei chyfnod mamolaeth. Rydym yn mynd i weld ei heisiau yn fawr iawn ac yn aros yn amyneddgar at gwrdd â'r babi newydd.

Dydd Mercher 20fed o Hydref buom ar daith addysgiadol i Gastell Henllys. Rydym wedi bod yn astudio'r Celtiaid yn ein gwersi ac roedd yn braf cael y cyfle i dreulio dydd fel Celt. Dysgais lawer am eu ffordd o fyw a mwynheais eistedd mewn tŷ Celtaidd.

Rhifyn mis Rhagfyr
Yn y Siopau
Rhagfyr 2ail
Erthyglau i law erbyn
Tachwedd 18fed
Newyddion i law erbyn
Tachwedd 22ain

Cwmann

Priodas Dda

Dr Eurfyl Davies mab ieuengaf Jos a Beryl Davies 4 Hyfrydle, Llanddewi Brefi a ŵyr i'r diweddar Mr. a Mrs. Tommy Davies gynt 8 Treherbert, Cwmann yn dilyn ei briodas gyda Miss Jennifer Smith unig ferch Stephen a Josephine Smith, Charfield, Wotton Under Edge yn Eglwys Sant Niclas o Myra, Ozleworth Sir Gaerloyw yn ddiweddar. Mae'r priodfab yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Abertawe a'r briodferch yn gweithio i gwmni yswiriant yng Nghaerdydd. Maent wedi ymgartrefu yn Llantrisant, Pontyclun.

Llwyddiant Eisteddfodol

Sara Elan o Gwmann a ddaeth yn gyntaf am ganu emyn dan 12 oed yn Eisteddfod Bancffosfelen yn ddiweddar

Llangybi a Betws

Ysgol Y Dderi

Llongyfarchiadau mawr i Miss Rhian ac Aled ar enedigaeth eu trydydd merch, Mabli Jên. Rwy'n siŵr fod Gwenno a Megan wrth eu boddau gada'u chwaer fach newydd.

Diolch i Evolve Sports am drefnu Clwb Pêl droed yn yr ysgol. Mae'r plant wedi elwa ac mae eu sgiliau wedi gwella dipyn.

Dathlwyd Diwrnod Cwpan Ryder yn yr ysgol yn ddiweddar, gyda phawb yn cael hyfforddiant golffio dan ofal Bryn Jones, Campau'r Ddraig.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yng nghanolfan awyr agored Pentywyn am wythnos yn abseilio, syrffio, gwneud saethyddiaeth, trin rhaffau uchel, cerdded afon a llawer mwy. Cafwyd llawer o hwyl.

Diolch i Mrs Jen am gynnal Clwb Coginio yn yr ysgol bob nos Lun. Mae'r plant wedi coginio quiche, cacennau Bakewell, a salad ffrwythau ffres. Blasus iawn!

Cafwyd perfformiad gwych gan Gwmni Theatr Arad Goch, O gam i gam, yn neuadd yr ysgol ar gyfer plant lleiaf yr ysgol.

Mae'r Urdd yn cwrdd bob nos Fercher yn yr ysgol dan ofal Mrs Sheila. Cafwyd gêmau parasiwt a chwis rhyngweithiol yn ystod y mis.

Daeth Lyn Denman i'r ysgol i gynnal gweithdy celf gyda disgyblion blwyddyn 5 a 6. Buon nhw'n creu posteri lliwgar i hysbysebu Gŵyl y Llusernau.

Dathlwyd Diwrnod T Llew Jones yn yr ysgol gyda phlant yr ysgol yn gwisgo fel rhai o gymeriadau ei nofelau. Cafwyd gwasanaeth arbennig a threfnwyd llawer o weithgareddau hwylus i gofio Brenin Llenyddiaeth Plant Cymru.

Bu Cyffin o flwyddyn 5, yn cynrychioli Ysgol y Dderi ym Mhencampwriaethau Sgïo Ysgolion Cymru yn ddiweddar. Llongyfarchiadau mawr i ti.

Yn rhan o waith Gwyddoniaeth y tymor ar Ein Corff, bu'r Nyrs Deintyddol Terry Brown yn ymweld â phob dosbarth i sôn am bwysigrwydd golchi dannedd. Diolch am yr anrheg o frwsh dannedd i bob disgybl hefyd!

Diolch yn fawr i Ysgol Gyfun Llanbedr Pont Steffan am ein gwahodd i weld Sioe Annie. Roedd y plant wedi mwynhau y perfformiad yn fawr iawn.

Cafwyd tri Gwasanaeth Diolchgarwch. Y cyntaf i'r henoed yn yr ysgol a braf oedd cael cwmni Hafan Deg gyda ni unwaith eto; yr ail yng Nghapel yr Erw, Cellan gan adran y babanod, a'r drydedd yn Eglwys Silian gan yr adran Iau. Da iawn chi blant am wneud eich rhan mor ardderchog a chasglwyd dros £200 tuag at Uned Dialysis Bronglais, Aberystwyth.

Hamdden

Cafwyd hanes diddorol iawn am ardal y Mynydd Bach yng nghyfarfod cyntaf y tymor newydd. Y gŵr gwadd oedd Mr Rheinallt Llwyd ac fe fu yn diddori y gynulleidfa gyda darluniau penigamp a hanes y gymdogaeth yma. Er nad oes fawr o boblogaeth yno heddiw, mae yna olion o'r Oes Efydd a Rhufeinig a llawer o hanesion difyr eraill am gyn drigolion yr ardal. Rhoddwyd pleidlais o ddiolch i Mr Llwyd am brynhawn diddorol ac addysgiadol gan Janet Farrow. Enillwyd y raffl gan Betty Green, Yvonne Thomas, Dilys Godfrey, Glenys Lloyd, Rowena Williams ac Allan Jones. Diolchwyd i Gwenda Thomas am archwilio y cyfrifon ac i bawb a gyfrannodd tuag at y Raffl. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd paned o de a bisgedi wedi eu rhoi gan Llinos Jones a Glenys Lloyd. Disgwylir Mr Paul Tranter i'r cyfarfod nesaf ar Dachwedd 5ed pan fydd yn sôn am hanes plas Llanerchaeron. Croeso cynnes i aelodau newydd.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau calonnog i Mr & Mrs Graham Williams am ennill gwobr gan Gyngor Sir Ceredigion am eu gwaith diflino yn y gymuned. Hwy sydd yn cadw pentref Llangybi yn daclus a lliwgar. Diolch yn fawr i chi am eich gofal a'r llafur caled trwy gydol y flwyddyn.

Merched y Wawr

Treuliwyd orig ddifyr iawn yng nghwmni Mr & Mrs Lyn Ebenezer. Sôn fu y gŵr gwadd am gymeriadau anarferol a fu yn byw yn y broydd cyfagos ac am eu hiwmor iachus. Diolchwyd iddo yn gynnes iawn am noson arbennig o ddiddorol yn llawn hanesion doniol iawn gan Lettie Vaughan. Rhoddwyd y Raffl gan Jennifer Cairns a Mair Spate ac fe enillwyd y gwobrau gan Lyn Ebenezer, Jennifer Cairns, Mair Spate a Mary Jones. I ddiweddu y cyfarfod cafwyd te a bisgedi wedi eu rhoi gan Mary Jones a Lettie Vaughan. Bydd y cyfarfod nesaf ar Dachwedd 17eg pan fyddwn yn croesawu Marian Delyth i'n hannerch.

Cwmsychpant

Babi Newydd

Llongyfarchiadau i Carol a Dorian Rees, Maesllwyd ar enedigaeth merch fach, Mari a chwaer i Jac, yn ystod mis Hydref.

Hefyd, i Lyn ac Eileen Rees, Tanrhos, Cwrtnewydd ar ddod yn dad-cu a mam-gu, ac i Mrs A. M. Rees, Glynsawel, Cwmann [gynt o Frondes] ar ddod yn hen fam-gu unwaith eto. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Pen-blwydd Arbennig

Dathlodd Dewi Jones, Blaenhirbant-Uchaf ben-blwydd arbennig yn ystod mis Hydref. Gobeithio i ti fwynhau'r diwrnod.

Llwyddiant Siarad Cyhoeddus

Llongyfarchiadau i Einir Ryder, Tyngrug-ganol ar ennill y Cadeirydd gorau yn yr Adran Siarad Cyhoeddus Saesneg dan 26 oed yn ddiweddar.

Cydymdeimlo

Yn ddiweddar collodd Mrs Lynne Goddall, Sychpant ei thad ac fe gydymdeimlir yn ddwys gyda'r teulu oll yn eu galar.

Capel-y-Cwm
Cwrdd Diolchgarwch

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm gyda chynulleidfa ragorol iawn nos Iau, Hydref 21ain. Y pregethwr gwadd oedd y Parch Alun-Wyn Dafis o Gei Newydd ond yn anffodus roedd ar ei wyliau mewn gwlad dramor ac nid oedd yn bresennol felly! Cymerwyd ati wedyn i gynnal y cwrdd gan ein gweinidog y Parch Wyn Thomas ac ef a draddododd yr anerchiad. Wrth yr organ oedd Mrs Nanna Ryder ac fe gafwyd gwasanaeth cofiadwy iawn. Diolch i bawb a drodd allan i gefnogi Cwrdd Diolchgarwch Capel y Cwm yn 2010.

Ysgol Sul

Cynhaliwyd Cwrdd Diolchgarwch yr Ysgol Sul brynhawn dydd Sul, Hydref 24ain. Thema'r gwasanaeth oedd Llyfrau Arbennig a gwnaeth y plant eu gwaith yn arbennig o dda gyda phob un o'r plant yn darllen yn raenus iawn. Roedd casgliad y prynhawn yn mynd tuag at goffrau'r Ysgol Sul.

Roedd y rhieni wedi paratoi te yn y festri ar ôl y gwasanaeth.

Yna, ar nos Lun, Hydref 25ain cynhaliwyd noson o Bingo yn y Festri. Galwyd y rhifau gan Dewi Jones. Cafwyd cwpanaid o de a bisgedi hanner amser. Rhoddwyd y diolchiadau gan y Parch Wyn Thomas. Derbyniwyd nifer o roddion a noddwyr gogyfer â'r gwobrau, felly diolch yn fawr i bawb am eu rhoddion hael.

Ffarmers

Cydymdeimlad

Blin gennym gofnodi marwolaeth Mrs Nancy Williams, Bryntirion, Carmel (gynt o'r Garth) yn dilyn cyfnod o waeledd. Estynnwn ein cydymdeimlad i'w phriod Penry, y plant Diane a Carwyn, a'r teulu oll. Rhoddwyd ei gweddillion i orwedd ym mynwent Bethel, Cwm Pedol ddydd Gwener, y 1af o Hydref.

Te'r Henoed

Cynhelir Te'r Henoed gan Wasanaeth Cymunedol yr Henoed ym mhlwyfi Cynwyl Gaeo a Llanycrwys yn Neuadd y Coroniad, Pumsaint brynhawn dydd Mercher, y 1af o Ragfyr am 3.30. Am fanylion pellach, cysylltwch â Heulwen Lloyd ar 01558 650477.

Marchnad y Ffermwyr

Cynhaliwyd y farchnad fisol yn y Neuadd ar yr 2ail o Hydref. Cynhelir yr un nesaf ar y 6ed o Dachwedd rhwng 10.00 y bore ac 1.00 y prynhawn. Cofiwch alw heibio i weld yr amrywiaeth o gynnyrch a chrefftau sydd ar gael.

Dartathon ac Ocsiwn

Soniwyd yn rhifyn mis Medi am lwyddiant y Dartathon a'r Ocsiwn a gynhaliwyd yn Y Drovers ar y 7fed o Awst i godi arian tuag at Barc Bro Fana. Da dweud fod yr arian yn dal i ddod a derbyniwyd siec am £500 trwy law Llinos Bowen o Fanc Lloyds TSB yn Llambed yn ddiweddar dan gynllun cefnogi elusennau'r Banc. Diolchir i Llinos ac i'r Banc am eu cymorth.

Cyfarchion

Llongyfarchiadau i Seb a Rhiannon Ling, Waungilwen, Drefach Felindre ar enedigaeth eu plentyn cyntaf – mab bach – Iari John. Ŵyr bach i Alun a Beryl, Bryndolau, a gor-ŵyr i Eirwen Thomas, Tynrheol. Dymuniadau gorau iddynt fel teulu.

Diolch

Dymuna teulu y diweddar Brenig Williams. Esgair Onnen ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu profedigaeth yn ddiweddar, ac am y cyfraniadau a dderbyniwyd er cof am Brenig. Casglwyd £600 tuag at uned ymchwil clefyd yr arennau yng Nglangwili.

Swper Cynhaeaf

Cynhaliwyd Swper Cynhaeaf Plaid Cymru yn Neuadd Bro Fana ar nos Sadwrn, yr 2ail o Hydref â'r bwyd wedi ei baratoi gan Jayne a Diane o'r Caffi sydd wedi ei leoli yn y Neuadd. Y gŵr gwadd oedd Tom Marks o Gilycwm, un â chysylltiad agos â'r ardal gan fod ei dad wedi bod yn Ficer Llanycrwys ar un adeg. Cafwyd araith ddiddorol ganddo yn sôn am Lydaw, a'r cysylltiadau hanesyddol rhwng Cymru a Llydaw, a'r ymdrechion i gynnal y diwylliant Llydewig. Noson hyfryd.

Neuadd Bro Fana

Nos Lun, yr 8fed o Dachwedd, bydd Ben Bouvet o'r Drovers' Arms yn rhoi arddangosiad coginio yn y Neuadd, gan ddechrau am 7.30. Cyfle i weld amrywiaeth o ryseitiau gwahanol yn cael eu paratoi – a chyfle i'w blasu! Galwch heibio.

Bydd Cerddorfa Siambr Llambed yn perfformio yn y Neuadd ar nos Sul, y 14eg o Dachwedd – nid y 13eg fel y cyhoeddwyd yn wreiddiol.

Fel arfer, bydd yr Eglwys a Chapeli'r gymdogaeth yn dod at ei gilydd gyda'r Neuadd i gynnal y Cyngerdd a'r Noson Garolau flynyddol ar nos Sul, Rhagfyr 19eg yng nghwmni Côr Meibion Cwmann a'r Cylch. Bydd elw'r noson eleni yn mynd tuag at Ambiwlans Awyr Cymru – gwasanaeth holl bwysig i drigolion cefn gwlad.

Cynhaliwyd noson Bingo yn y Neuadd ar nos Wener, y 15fed o Hydref gyda Jean Evans a Bevan Williams yn llywio'r chwarae. Cafwyd noson hwylus, a diolchwn i Jean a Bevan am eu parodrwydd i gynorthwyo, ac i bawb a ymunodd yn y chwarae.

Os ydych yn ymateb i hysbyseb gan gwmni yn CLONC, dywedwch wrthynt ymhle y gwelsoch yr hysbyseb.

Clwb Clonc

Tachwedd 2010

£25 rhif 96 :
Mrs Rachel Davies,
Afonog, Cwrtnewydd.
£20 rhif 372 :
John a Morwen Morgan,
4 Maes-y-Felin, Llambed.
£15 rhif 333 :
Alan Jones,
Penlanfach, Cwrtnewydd.
£10 rhif 225 :
Mrs June James,
Maesteg, Cae Ram, Cwmann.
£10 rhif 311 :
Dan Jones,
Penarth, Heol-y-Bryn, Llambed.
£10 rhif 227 :
Mrs Delor James,
Brynhyfryd, Blaenannerch.

Llanfair Clydogau

Bingo

Nos Wener, Hydref 8fed, cafwyd noswaith hwylus a chyfeillgar yng nghwmni Harold a thua deg ar hugain o bentrefwyr. Aeth rhai adref yn hapus iawn wedi ennill tipyn o arian, a'r lleill yn edrych ymlaen at y tro nesaf i gael cyfle arall. Diolch i bawb a wnaeth helpu mewn unrhyw ffordd i wneud y noson yn llwyddiannus a helpu cronfa'r neuadd trwy gyfrannu dros chwe deg punt.

Priodas

Priodwyd Shirley Jenkins, Clwtypatrwm ac Emyr Davies o Lanilar yn Eglwys Santes Fair ddydd Sadwrn, Hydref 23ain. Hoffem ddymuno pob hapusrwydd i'r ddau ohonynt. Bydd adroddiad llawn y mis nesaf pan ddaw y manylion i law.

Hefyd, hoffem ddymuno priodas dda a phob bendith i Anwen a Dewi a briodwyd yng Nghapel Elim, Llanddeiniol ddydd Gwener, Hydref 29ain. Mae Anwen yn ferch i Eirwyn Evans, Esgairman gynt ac yn nith i Ian.

Penblwyddi di-ri

Rydym wedi penderfynu fod 1950 wedi bod yn flwyddyn 'sbeshal' gan fod llawer yn ein pentref ni wedi bod yn dathlu penblwyddi arbennig yn ystod yr wythnosau diwethaf. Dymunwn iddynt longyfarchiadau cynnes iawn.

Beth sydd ymlaen nesaf?

Transition Town Llanbed - Ar Dachwedd 6ed bydd cynrychiolwr o TTL yn y neuadd rhwng 11 o'r gloch a 3. Galwch mewn i wrando ac i holi.

Noson i ddathlu adnewyddiad y neuadd nos Sadwrn, Tachwedd 20fed.

Ffair Grefftau Nadolig, Tachwedd 27ain, 10 o'r gloch tan 4.

Canu Carolau o gwmpas y pentref nos Lun, 13eg o Ragfyr a nos Iau, 16eg o Ragfyr. Cwrdd ger y neuadd am 6 o'r gloch.

Gwasanaeth Carolau'r pentref, yn Eglwys Santes Fair ddydd Sul, 19eg o Ragfyr am 2.30 o'r gloch.

Cellan

Dyweddïo

Llongyfarchiadau i David Green a Erin Moss, Tŷ Capel Caeronnen ar eu dyweddïad yn ddiweddar. Dymuniadau gorau i chi i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i Alun a Marian Llwynifan, Cellan ar ddod yn fam-gu a thad-cu i Tomos Alun - pob hwyl i Catrin a John. Llongyfarchiadau hefyd i Rhys ac Angela, Gwendraeth ar ddod yn fam-gu a thad-cu eto a chroeso i Eva Florence, chwaer fach i Jake ac Osian a merch i Mark ac Anwen.

Llwyddiant

Braf oedd clywed am lwyddiant Anwen Butten yng Ngêmau'r Gymanwlad yn Delhi - tipyn o gamp i ennill medal efydd yn y bowlio. Roedd hi'n bleser gweld y tai wedi eu haddurno i'w chroesawu adref. Da iawn ti, Anwen! Roedd Janette, Brynfedwen yn bles hefyd wrth wylio llwyddiant ei nith, Rebecca James yng Ngêmau'r Gymanwlad.

Cwrdd Diolchgarwch

Daeth tyrfa dda ynghyd i Gwrdd Diolchgarwch plant y Cyfnod Sylfaen, Ysgol Y Dderi yng Nghapel yr Erw ddydd Gwener y 15fed o Hydref. Gwnaeth y plant eu gwaith yn arbennig o dda.

Neuadd y Mileniwm

Dyma restr o'r ffilmiau a fydd yn cael eu dangos yn SINEMA CELLAN dros yr wythnosau nesaf. Cynhelir ffilm bob pythefnos ar nos Wener yn Neuadd y Mileniwm - sgrin fawr, popcorn a ffilmiau da! Croeso i bawb; gofynnir am £2 o gyfraniad i wylio'r ffilm; agorir y drysau am 7.15 ac mae'r ffilm yn dechrau am 7.45

Tachwedd 12fed: Four Lions
Tachwedd 26ain: The Karate Kid
Rhagfyr 3ydd: The A Team
Rhagfyr 10fed: Sex and the City 2
Ionawr 7fed: Knight & Day
Ionawr 21ain: Salt

Fe fydd Toy Story 3 yno cyn hir. Cadwch lygad ar y wefan am fanylion pellach.

www.cellanmillenniumhall.co.uk

Pentrebach

Cydymdeimlo

Cydymdeimlir yn ddwys â Twynog, Hazel a'r teulu oll yn Frondolau ar golli brawd yng nghyfraith a oedd yn byw yng Nghaerdydd.

Pencarreg

Gwellhad Buan

Gobeithio fod y gohebydd lleol, Mrs Lynda Thomas, Dolgwm yn well erbyn hyn yn dilyn ei arhosiad yn yr ysbyty.

Llanllwni

Arddangosfa Cynllun Hanes a Chymuned Llanllwni a Lansio Gwefan newydd Llanllwni

Mae yna groeso i chi alw draw i Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni ddydd Sadwrn y 13eg a ddydd Sul 14eg o Dachwedd rhwng 12 a 4yh, lle bydd arddangosfa cynllun hanes a chymuned Llanllwni a lluniaeth ysgafn ar gael. Bwriad yr arddangosfa yw lansio gwefan cymunedol Llanllwni a thaflen sydd yn crynhoi hanes hynt a helynt tlodion yn y plwyf dros gyfnod gweddol faith c1600 - 1840. Yn ogystal, bydd yn gyfle i bobl yr ardal weld copïau o gofrestri Eglwys St Luc Llanllwni yn dyddio nol i 1739 a'r gwaith sydd wedi ei wneud i adysgrifio'r wybodaeth yma. Bydd cyfle hefyd i weld cynllun y gwaith o fapio mynwent yr eglwys yn nodi'r cerrig beddau. Mae'r arddangosfa yma yn benllanw misoedd o waith gan nifer o wirfoddolwyr ac yr ydym yn ddiolchgar dros ben iddynt am roi eu hamser yn ddiflino. Yr ydym yn ddiolchgar i Gyngor Sir Gâr am ariannu'r cynllun yma yn rhan o'r Cynllun Datblygu Gwledig.

Cydymdeimlo

Drwg iawn oedd clywed am farwolaethau y canlynol yn ystod mis Hydref: John Maisey, Ail-le - estynnir cydymdeimlad i'w briod Isobel a'r holl gysylltiadau. Bowen Jones, Sarn Helen [Rhes Uchaf gynt] – cydymdeimlir â'i briod Sarah a'r teulu yn gyfan.

Yr oedd y ddau yn barchus iawn yn yr ardal ac fe welir eu colled yn fawr iawn.

Ymgynghorwyr Yswiriant

Eryl Jones

Beth am gysylltu â ni am amcan-bris i'ch holl anghenion yswiriant?

Car, lori, fan, beic modur — Yswiriant tŷ/ cynnwys

Teithio — Fferm a busnes

Cyfrifoldeb — Anifeiliaid

Polisiau Cystadleuol i bob math o yswiriant, cyngor a chefnogaeth yn rhad

Swyddfa'r Hen Fanc, 6 Stryd Fawr Llanbedr Pont Steffan, SA48 7BA

Ffôn: **01570 422401**

Ffacs: **01570 422562**

Authorised & Regulated by The Financial Services Authority

FISHERS ARMS

Bwyd cartref ardderchog nos Iau, Gwener a Sadwrn. Cwrw traddodiadol. Croeso i awyrgylch Gymreig gan Berian a Beverley Wilkins a'u merched.

Cellan, Llambed

01570 422895

Bingo

Cynhaliwyd noson Bingo yn y Neuadd Gymunedol ar nos Lun, Hydref 11eg dan nawdd Pwyllgor Henoed Llanllwni. Cafwyd noson hwylus iawn ac fe wnaed elw o tua £1200 at yr achos. Hoffai'r pwyllgor ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd at wobrwyon y Bingo a'r Raffl. Enillwyr y Raffl Fawr oedd David John Davies, Wernfraith; John Davies, Pantmoch, Ffion Rees, Llysywawr; Griff Llewelyn, Ganllwyd; Wyn Jones, Meusydd a Llio Meirion, Chwilog. Bydd yr eglwys yn cynnal Noson Bingo yn y Belle Vue nos Lun, Tachwedd 22ain.

Genedigaeth

Llongyfarchiadau i Julie ac Elfryn, Delfryn ar enedigaeth mab bach, chwaer fach i Elin. Dymuniadau gorau i chi fel teulu.

Ysgol Feithrin Ffair Nadolig

Ydi, mae bron yr amser yna o'r flwyddyn a bydd yna Ffair Nadolig yn Neuadd yr Eglwys Llanllwni ar brynhawn dydd Sadwrn 27ain o Dachwedd o 2 hyd 5 yr hwyr. Bydd yna amrywiaeth o stondinau yn cynnwys gemwaith, cynnyrch cartref, cardiau, nwyddau a llyfrau Cymraeg a gêmau i blant a chacennau. Mae Santa yn mynd i alw i mewn ag anrhegion i'r plant. Cewch ddysgu sut i wneud cardiau gyda Rosanne Joynson a bydd plant Ysgol Gynradd Llanllwni yn canu carolau i gloi'r prynhawn. Felly, galwch draw i gefnogi a phrynu anrheg 'Dolig at achos da gan fydd yr elw yn mynd tuag at Gylch Meithrin Llanllwni

Cylch Ti a Fi Llanllwni

Croeso cynnes i famau / tadau, mamgu's a thadcu's, gofalwyr a phlantos bach alw draw am baned a chlonc tra bod y plantos yn mwynhau chwarae â theganau, peintio a llawer mwy bob bore dydd Iau o 9 - 11.

Bingo Nadolig

Cynhelir Bingo yn y Belle Vue Llanllwni, nos Lun Rhagfyr 6 am 8 yh. Elw tuag at Gylch Meithrin Llanllwni. Croeso cynnes i bawb.

Ruth Thomas a'i Chwmni

Cyfreithwyr

19 Stryd y Coleg, Llambed

Ffon: 423300 Ffacs: 423223

mail@ruththomassolicitors.co.uk

yn cynnig pob gwasanaeth cyfreithiol

Apwyntiadau hwyr neu yn eich cartref

Ysgol Llanllwni

Cyflwynwyd siec am £54 i Mr Phil Thomas o Tŷ Hafan yn ddiweddar, sef arian a gasglwyd wrth wisgo i fyny. Hefyd yr un diwrnod cyflwynwyd siec am £360 i Mr Tom Davies o Gymorth Cristnogol er mwyn helpu pobl Haiti. Casglwyd yr arian yma trwy wneud taith feicio a cherdded noddedig. Diolch i bawb a gyfrannodd at yr achosion yma.

Bu Blwyddyn 4 a 5 mewn twrnament Golff yng Nghaerfyrddin. Cawsant amser da yno a byddant yn derbyn tystysgrifau. Bu tîm o'r Adran Iau yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth pêl droed yr Urdd.

Cymerodd y plant i gyd ran yng Nghwrdd Diolchgarwch yr Eglwys ar brynhawn Iau, Hydref 7fed.

Derbyniodd yr Adran Iau sesiynau gwyddoniaeth gan Miss Mattie Evans yn Ysgol Uwchradd Llanbed. Cawsant brofiadau gwerthfawr wrth wneud gweithgareddau ymarferol.

Aeth plant blynyddoedd 4, 5 a 6 i weld sioe gerdd 'Annie' yn Ysgol Llanbed. Roedd y perfformiad yn wych gydag ôl llawer o waith caled. Roedd yn braf gweld nifer o gyn ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan ar y llwyfan.

Ar ddiwrnod dathlu chwarter canrif Cymdeithas Defaid Balwen ar Hydref 10fed yng Nghastell Carreg Cennen, cyflwynodd Alun Williams, Llywydd y Gymdeithas a Mary Bowman yr Is-Lywydd darian goffa Vic Bowman i Aelod Mwyaf Gweithgar [Iau] 2010, Rhian Thomas, Maesderi, Llanllwni.

Llongyfarchiadau

Rhian Davies, o Glwb Ffermwyr Ifanc Llanllwni a ddaeth yn fuddugol yng nghystadleuaeth Adroddiad Digri 26 neu iau yn Eisteddfod C.Ff.I. Sir Gâr a gynhaliwyd yn Neuadd San Pedr, Caerfyddin yn ddiweddar.

Llanbedr Pont Steffan

Cylch Cinio

Cynhaliwyd cyfarfod agoriadol y Cylch y tymor hwn dan lywyddiaeth y Cyng. Hag Harris ar Hydref 7fed. Y siaradwr gwadd a groesawyd yn gynnes iawn gan y Llywydd oedd y Bnr. Euros Lewis. Bellach mae'n rhannu ei amser rhwng arwain gwaith Cwmni Cydweithredol Troedyrhiw, cynhyrchu rhaglenni ar gyfer cwmni annibynnol Wes Glei a darlithio yn Ysgol Theatr, Cerdd a'r Cyfryngau, Prifysgol Y Drindod -Dewi Sant. Mae hefyd yn gweithio ar brosiect dros ddwy flynedd ar hanes Theatr Felinfach.

"Gwibdaith" yn ymwneud â hanes y ddrama yng Ngheredigion a chyfraniad drama a chymdeithas yn dod at ei gilydd oedd ei destun. Cyfeiriodd at leoliad Felinfach fel "epicentre" y datblygiadau. Roedd y gwreiddiau a'r traddodiadau dylanwadol yn cynnwys y seiliau crefyddol, megis twf Calfiniaeth a sefydlu canolfannau newydd yng nghefn gwlad a oedd yn fannau llawn tyndra creadigol. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd digwyddiadau eraill fel Terfysgoedd Beca ac amgylchiadau'r troad allan wedi gwrthod talu'r degwm. Dyma enghreifftiau o ddrama fyw yn dod â chymdeithas at ei gilydd.

Ar ôl y Rhyfel Mawr, gydag adeiladu neuaddau coffa daeth cyfnod a welodd sefydlu tua 60 o gwmnïau drama ledled y sir. Roedd y perfformiadau a chyfraniadau'r sylfaenwyr a'r cyfarwyddwyr - rhai ohonyn nhw yn lleol i Lambed a'r cylch - yn enwedig yn y cyfnod ar ôl yr ail Ryfel Byd, yn fyw iawn yn y cof. Roedd diwedd y chwedegau yn gyfnod o drai, ond gyda sefydlu Theatr Felinfach daeth cyfnod newydd yn llawn potensial.

Y Bnr. Eifion Davies - un a gyfarwyddwyd gan y gŵr gwadd mewn sawl drama - a gynigiodd y diolchiadau. Tystiodd yn gynnes iawn i ddoniau creadigol y siaradwr.

Ysgol Ffynnonbedr

Bu cwmni Fflic yn yr ysgol yn cyfweld disgyblion blynyddoedd 2 a 3. Cafodd pedwar plentyn eu dewis i gymryd rhan yn y raglen "Rapsagliwns" Llongyfarchiadau i Nia Beca Jones, Owain Jacob, Lauren Hill ac Elan Jones ar gael eu dewis. Rydyn yn edrych ymlaen i'ch gweld ar S4C yn y dyfodol agos.

Cynhaliwyd ein Cwrdd Diolchgarwch yn yr ysgol eleni a hyfryd oedd gweld y plant yn diolch ar lafar ac ar gân. Diolch i'r staff am eu paratoi.Casglwyd nifer o focsys o nwyddau i'w danfon at blant y trydydd byd a diolch i'r plant a'r rhieni am y cyfraniadau.

Daeth Mr Andrew Shaw sy'n brif-athro ar ysgol Wigmore i ymweld â ni yn ddiweddar. Bu Mr Wyn, Mr Roderick a Mrs Jones yn ddigon ffodus i fynd i weld ei ysgol ef yn Henffordd cyn yr haf. Roedd yn hyfryd i gael ei gwmni ac i glywed am ei brofiadau ef gan ei fod yntau yn brif-athro ar ysgol 3 – 16 oed.

Bu disgyblion blwyddyn 6 yn cael profiadau diri yn yr Ysgol Uwchradd wrth wneud gwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd hyn yn eu cynorthwyo wrth iddynt symud i'r Uwchradd.

Bu Nyrs Morag yn siarad â disgyblion blynyddoedd 1 a 2 ac yn trafod glendid Dwylo. Diolch iddi am roi o'i hamser ac i Mrs Young am drefnu.

Bu Mr Islwyn Rees yn cynnal hyfforddiamt gymnasteg i nifer o'r staff a diolch iddo am roi o'i amser prin i wneud hyn. Llongyfarchiadau i Mr Rees ar gyrraedd y rownd derfynol yng nghystadleuaeth gymnasteg Hyfforddwr y Flwyddyn unwaith eto eleni.

Rydym wedi dechrau clwb rhedeg amser cinio unwaith yr wythnos yn yr ysgol er mwyn annog y plant i feddwl am eu ffitrwydd. Mae disgyblion blynyddoedd 5 a 6 hefyd yn cael cyfle y tymor yma i fynychu clwb 560 yn y Ganolfan Hamdden fesul dosbarth.

Diolch i deulu Laura Arthur am roi coed i ni i'w plannu yn yr ardd wyllt. Hefyd i Alec Page a Wyn John am eu gwaith.

Derbyniodd yr ysgol dystysgrif gan gwmni'r Consortiwm yn canmol yr ysgol am safon yr arddangosfeydd ar draws yr ysgol. Diolch i Margaret Jones am drefnu ac i Miss Shireen am dynnu'r lluniau i'r gystadleuaeth.

Bu ymwelwyr o Lesotho ar daith o gwmpas yr ysgol ac yn rhannu profiadau gyda'r plant a'r staff.

Bu aelodau o gôr yr ysgol yn perfformio'r gân agoriadol yn sioe "Annie" a gynhyrchwyd gan yr Ysgol Uwchradd. Roedd yn brofiad gwych i'r plant ac roedd cryn dipyn o gyffro yn eu plith .Diolch i'r plant am wneud eu gwaith mor raenus ac i Mrs Carys Lewis, Miss Sandra Davies a Mrs Sally Saunders am eu hyfforddi. Hefyd i Miss Anita Davies a Mrs Collom am baratoi'r gwisgoedd. Cafodd disgyblion blynyddoedd 4,5 a 6 gryn foddhad yn gwylio'r perfformiad yn ei gyfanrwydd . Llongyfarchiadau i bawb a fu ynghlwm â'r sioe.

Cymdeithas Hanes

Croesawyd cynulliad da o aelodau a ffrindiau i'r Hen Neuadd ar y 19eg o fis Medi gan Selwyn Walters, y Cadeirydd.

Siaradwr y noson oedd Nigel Nicholas, swyddog Prosiect Llwybr Arfordir Ceredigion, ac yn naturiol, dyna oedd ei destun. Clywyd sut y daeth y prosiect hwn i fodolaeth dan raglen 'Amcan 1' y Llywodraeth a'r Undeb Ewropeaidd, - ond bu'n rhaid dibynnu ar frwdfrydedd a dyfalbarhad tua 100 o wirfoddolwyr,- rhai yn eu 80au,- cyn y daeth y gwaith i ben. Roedd yna bytiau o lwybr arfordirol hwnt ac yma, ond heb fod yn ymestyn yn ddi-dor ar hyd y 60 milltir o Ynys Las yng ngogledd y sir, lawr hyd at Aberteifi yn y de.

Dechreuwyd ar y gwaith o gydlynu'r prosiect yn 2001, a bu'n dalcen caled i gael y perchnogion tir i gydsynio bob tro â'r hyn y bwriadwyd ei wneud parthed â'r llwybr, ynghyd â'r ochr gyfreithiol. Ond o dipyn i beth, cwblhawyd y gwaith, ac agorwyd Llwybr Arfordir Ceredigion yn swyddogol yn 2008 gan Jane Davidson.

Drwy gyfrwng lluniau, dilynwyd y llwybyr ar ei hyd, gan weld y 'cynt' a'r 'wedyn'; yn wir, mae'n anodd dirnad sut y cyflawnwyd y fath gamp mewn ambell i ardal, yn enwedig rhwng Cwmtydu a Llangrannog!! Gwelwyd a chlywyd am ddaeareg yr arfordir, ei bywyd gwyllt, ac yn amlwg ddigon y golygfeydd godidog. Cyplyswyd stori Cantre'r Gwaelod â Sarn Cynfelyn ac olion y goedwig hynafol yn y Borth; Mynachty'r Graig, a'r trapiau pysgod ger Aberarth ac Ystrad Fflur. Clywyd enwau megis Craig y Delyn ger Clarach, Craig y Deryn ger Cei newydd, a'r miloedd o adar yn dod i'r lan am ychydig fisoedd i nythu.

Roedd hon yn noson o ddiddordeb mawr i'r gwrandawyr, ac mae'n siwr y bydd yn symbyliad i nifer ymestyn eu coesau ar hyd darnau o Lwybr yr Arfordir. Yn ystod misoedd yr haf, mae bws y Cardi Bach yn rhedeg rhwng Aberteifi a Chei Newydd i wneud yn siwr nad oes angen cerdded yn ôl a blaen os na dymunwch. Rhywbeth i'w gofio erbyn yr haf nesaf !!

Diolchwyd yn gynnes iawn i Nigel Nichollas gan y Cadeirydd. Bydd y cyfarfod nesaf, nos Fawrth, Tachwedd 16eg am 7.30yh yn Adeilad Caergrawnt yn y Coleg, pan fydd Y Parchedig Stephen Morgan yn sôn am y Cardis a adawodd eu sir enedigol am Ohio yn yr Amerig. Croeso cynnes i bawb.

Cafwyd gwasanaeth arbennig yn yr ysgol i edrych ar waith a bywyd T Llew Jones ar Hydref 11. Dyma'r diwrnod Cenedlaethol i gofio amdano gan mai dyma oedd diwrnod ei benblwydd. Daeth nifer o blant â llyfrau o'i waith i'r ysgol a threfnwyd nifer o weithgareddau yn y gwersi yn seiliedig ar ei storiau a'i farddoniaeth.

Llanbedr Pont Steffan

Halen y Ddaear

Llongyfarchiadau cynnes i Janice, perchennog siop dillad Duet ar ei hanrhydeddu â'r teitl 'Halen y Ddaear' ar raglen Wedi 3 ar S4C yn ddiweddar. Cafodd Janice syrpreis enfawr pan gerddodd Alwyn Humphreys i mewn i Duet i gyflwyno plât arbennig iddi a blodau. Cafodd ei henwebu gan Heather Price o Fanc Barclays am ei gwasanaeth i'r gymuned yn codi miloedd ar filoedd o bunnoedd tuag at achosion da ar hyd y blynyddoedd trwy gynnal Sioeau Ffasiwn lu. Mae nifer o elusennau yn ddyledus iawn i Janice am ei chyfraniadau hael. Diolch Janice am eich gwaith diflino ac i bawb sydd yn eich cynorthwyo.

Noddfa

Daeth cynulliad teilwng iawn o aelodau, rhieni a ffrindiau'r achos ynghyd i Noddfa i oedfa ddiolchgarwch arbennig yng ngofal yr Ysgol Sul wedi ei llunio gan Janet ar y thema 'Dwylo'. Braf oedd gweld 25 yn cymryd rhan o 4 oed i fyny a phawb yn cyflawni eu gwaith mor raenus a'r cyfan yn dangos paratoi trwyadl. Cyhoeddwyd yr emynau gan Aled, Lisa a Beca Roberts a chafwyd darlleniadau o'r Beibl gan Steffan ac Aron. Gweddïwyd gan Guto, Rhys a Teon a'r llefarwyr oedd Cerys a Beca Creamer. Yn ogystal â hyn, pleser oedd gwrando ar unawd gan Lowri Elen; sgets yn seiliedig ar lun enwog yr Almaenwr, Albrecht Durer o Ddwylo ei frawd Franz, gan Tomos ac Osian Jones; cân o waith Janet gan Lisa, Elan a Beca Roberts; ac emyn Huw Jenkins hefyd o Lambed gan Hannah, Teon a Rhys. Roedd y plant lleiaf, sef Rhys Tom, Dafydd, Osian Roberts, Siôn ynghyd â Gwenllian, sy'n aelod newydd yn yr Ysgol Sul, wrth eu bodd yn moli Duw mewn pennill a chân a'r gynulleidfa yn cael mwynhad mawr yn eu cwmni. Hefyd cyfoethogwyd yr oedfa gan ddatganiad swynol iawn o emyn Euros Rhys Evans 'Ein Traed a'n Dwylo Ni' ar eiriau Robin Gwyndaf gan 5 o'r mamau ifanc sef Llinos, Iona, Alwena, Helen a Sian. Yn ystod y gwasanaeth fe'n hatgoffwyd i ddilyn esiampl Iesu trwy defnyddio ein dwylo bob amser i helpu, i rannu ac i weddïo. Yr organyddion oedd Alwena, Llinos a Janet. Talodd ein Gweinidog y Parchedig Jill Tomos deyrnged uchel i'r plant a'r bobol ifanc am oedfa fendigedig, i bawb am eu cefnogaeth ac yn olaf ond nid y lleiaf i Janet am ei gwasanaeth diflino i'r Ysgol Sul a'i brwdfrydedd dros yr achos. Diolchodd Janet hithau i Llinos a'r rhieni i gyd am eu cymorth parod bob amser a soniodd bod yr Ysgol Sul bellach ar nos Wener oherwydd y rygbi. Yn ganlyniad i'r newid, da yw cyhoeddi bod y presenoldeb nawr yn gant y cant. Dymunodd Janet yn dda i Guto ar ei ymweliad â Phatagonia yn rhan o gynllun gwirfoddol yr Urdd. Yn lle ffrwythau, daeth y plant â rhoddion ariannol i'w cyflwyno i Gymdeithas Clefyd y Siwgr. Mawr oedd y canmol wrth droi tuag adre a phawb yn teimlo mai da oedd bod yn bresennol a chael cyfle i gyd-addoli gyda'r ieuenctid a hefyd i werthfawrogi eu doniau amrywiol mewn gwasanaeth cofiadwy. Mae yna seibiant haeddiannol i bawb nawr am ychydig ac fe fydd yr Ysgol Sul nesa ar nos Wener 5 Tachwedd o 4 hyd 5 o'r gloch.

Bedyddwyr Cylch Gogledd Teifi

Roedd y gwasanaeth boreol a ddarlledwyd ar Radio Cymru ar 17 Hydref yng ngofal y Parchedig Jill Tomos. Thema'r oedfa oedd 'Gorffwys a Gwaith' a bu un aelod o bob eglwys yn ei chynorthwyo gan gyflawni eu gwaith yn raenus ac yn ddeallus iawn. Cafwyd neges gyfoes a phwrpasol gan ein Gweinidog ac fe'i llongyfarchwn hi yn gynnes ar oedfa ddiolchgarwch arbennig iawn a oedd yn dangos llawer o waith cynllunio a pharatoi manwl. Yn ôl yr ymateb, mae gwrandawyr ar hyd a lled Cymru wedi derbyn bendith wrth wrando ac yn uchel iawn eu canmoliaeth am gyfraniadau pawb a oedd yn gysylltiedig â'r oedfa hon. Diolch i'r Parchedig Jill Tomos ac aelodau'r chwe eglwys am eu gwaith clodwiw.

Aelwyd yr Urdd

Braf oedd croesawu nifer o aelodau newydd i gyfarfod agoriadol Aelwyd yr Urdd y tymor hwn yn Ysgol Fynnonbedr. Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn 2010/11: Cadeirydd Twm Adams; Ysgrifennydd Melisa Davies; Trysorydd Lowri Elen; Gohebwyr y Wasg Carys Jones a Sulwen Richards. Diolch i Geinor Medi a Janet am eu parodrwydd i gario mlaen fel Arweinyddion ac i rieni a ffrindiau'r Urdd am gytuno i gynorthwyo yn ôl yr angen. Paratowyd rhaglen amrywiol ar gyfer y tymor yn cynnwys sesiynau dawnsio, rygbi a choginio ac erbyn i Clonc ddod o'r wasg bydd yr aelodau wedi mwynhau hwyl Calan Gaeaf gyda Geinor Medi. I ddiweddu'r noson agoriadol cafwyd llawer o sbri yn cymryd rhan mewn gêmau yng ngofal Geinor a Janet. Nos Fawrth daeth yr aelodau ynghyd i noson yng ngofal Luned a Rhidian o'r Urdd. Bu'r merched a'r bechgyn yn mwynhau sesiwn garioci ac fe amlygwyd talent nifer o'r aelodau, yn enwedig y bechgyn! Braf oedd gweld pawb yn ymuno yn yr hwyl ac yn amlwg yn joio mas draw. Cafwyd chwaraeon amrywiol i gloi. Diolchodd Tomos Rhys i Luned a Rhidian am noson ddifyr iawn ac i Geinor a Janet am gadw trefn ar bawb!

Cymanfa'r Urdd

Nos Sul 5 Rhagfyr am 5 o'r gloch cynhelir Cymanfa Garolau ym Mrondeifi yng nghwmni aelodau a ffrindiau Adran ac Aelwyd yr Urdd Llambed. Arweinydd y Gymanfa yw Elonwy Davies o Lanybydder sydd fel y gŵyr pawb yn weithgar iawn yn ei chymuned ac yn barod ei chymwynas. Yn ystod y noson ceir eitemau gan Gôr yr Adran, parti'r Aelwyd ac aelodau unigol. Bydd y rhaglenni ar werth am £3 gan yr aelodau. Cyflwynir elw'r noson at waith yr Urdd yn lleol ac at achos teilwng arall i'w gyhoeddi eto. Croeso cynnes i bawb.

Gyrfa Chwist Hafan Deg

Nos Fercher 29ain o Fedi cynhaliwyd Gyrfa Chwist yng Nghartref Hafan Deg gyda Mr Iorwerth Evans, Llangybi yn arwain. Yr enillwyr oedd fel y ganlyn- Dynion: 1af, Gwendoline Jones. 2ail, Peter Jones. 3ydd, Ifan J. Jones. Merched: 1af, Nancy Davies. 2ail, Ceri Lloyd. 3ydd, Catrina Davies. Carden Miniature- Dynion: Dai Davies. Merched: Ifan P. Jones. Bwrw Allan- Enillwyr: Ifan P. Jones a Ieuan James. Ail: Mary Evans a Mai Williams. Enillwyr 13eg o Hydref- Dynion: 1af, Gwendoline Davies. Cydradd 2ail, Mai Williams a Peggi Davies. Merched: 1af, Catrina Davies. 2ail, Ifan P. Jones. 3ydd, Mary Evans. Carden Miniature- Dynion: Edward Lockyer a Peter Jones. Merched: Nancy Evans. Bwrw Allan- Enillwyr: Peggi Davies a Yvonne Jones. Ail: Brian James a Iorwerth Evans. Bydd Gyrfaoedd Chwist mis Tachwedd ar y 10fed a'r 24ain. Croeso cynnes i bawb.

Cydymdeimlad

Estynnir cydymdeimlad dwysaf â phawb sydd wedi colli anwyliaid yn ystod y mis.

Merched y Wawr Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch

Cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Lisa Marie Harding- Jones, y gof-arlunydd, ar 11 Hydref gan Ferched y Wawr Cangen Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch. Mae Lisa a'i gŵr a'u dau blentyn yn byw ac yn rhedeg eu busnes ym Mrechfa, Sir Gaerfyrddin. Mae'r nwyddau neilltuol ac unigryw wedi eu creu o ddur ac o safon uchel. Daeth Lisa ag arddangosfa o'r crefftwaith i'r aelodau gael gweld, a bu yn egluro'r broses a ddefnyddiodd i'w creu. Mae Lisa yn cynllunio'r crefftwaith ar y cyfrifiadur yn gyntaf cyn ei greu. Mae ganddynt wefan i'r fusnes. Gellir gweld arddangosfa o'r crefftwaith yn siop 'Crafts Alive' Llandeilo, yn Nhreganna, Caerdydd, yn ogystal â llawer o siopau mewn trefi lleol a ffeiriau crefft. Ymysg eu cwsmeriaid mwyaf enwog mae Siarl Tywysog Cymru. Roedd yr aelodau wedi mwynhau yn fawr iawn, a chynigiodd y Llywydd Mrs. Mary Davies bleidlais o ddiolchgarwch i Lisa am ddod i arddangos ei chrefftwaith unigryw. Diolchodd Mary hefyd i Noeleen, Janet a Dilys am y te a'r bisgedi. Dymunodd Mary wellhad buan i Mrs. Ann Lewis sydd newydd dderbyn llawfeddygaeth, ac i unrhyw un o'r aelodau eraill sydd wedi dioddef salwch yn diweddar. Estynnodd Mary longyfarchiadau i Mrs. Glenys Morris sydd wedi ei hanrhydeddu am ei gwasanaeth i Gyfeillion Cartref Henoed Hafan Deg am dros ugain mlynedd. Enillwyd y raffl misol gan Mrs. Mair Richards. Ein gwestai ym mis Tachwedd fydd Mr. Ivor Lloyd o ardal Aberaeron.

Priodas Ruddem

Llongyfarchiadau i Gwynfor ac Ann Lewis, Bronwydd, Stryd y Bont ar ddathlu Priodas Ruddem yn ddiweddar.

Diolch

Dymuna Teulu Ceulan, Maestir ddiolch yn gynnes i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a chymwynasau lu yn dilyn eu profedigaeth adeg colli gŵr, tad a thadcu arbennig sef Alan (gynt Tyllwyd). Gwerthfawrogir yn fawr y cyfraniadau hael o £1500.00 a dderbyniwyd er cof am Alan, a'r £500.00 a gasglwyd mewn noson Barnu Gwartheg Bîff gyda Sioe Amaethyddol Llambed yng Ngwmhendryd yn ystod mis Awst. Trosglwyddwyd siec am £2000.00 i Ward Meurig Ysbyty Bronglais, Aberystwyth.

Toriad Taclus

Mae Toriad Taclus
Wedi newid siop
Mae ar Heol Caerfyrddin
Ger y Sgwâr Top

Ffoniwch Catrin ar 01570 481425

Cydnabyddir cefnogaeth

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Cadwyn Cyfrinachau

Enw: **Hadi Davies**
Oed: 29
Pentref: Pentrebach , Llambed.
Gwaith: Nyrs yn YsbytyBronglais
Partner: Bleddyn Jones, Pengallt.
Teulu: Dad, Mam, Laura , Sian.

Unrhyw hoff atgof plentyndod.
Chware tu allan ar y beics ac yn mynd mas ar y ponis yn neud drygioni!

Hoff raglen deledu pan oeddet yn blentyn.
Tintin a Thunderbirds.

Yr eiliad achosodd yr embaras mwyaf.
Yn torri bord yn Debenhams yn meddwl mai cadair oedd hi! Gwnaeth hi dorri yn ddarne bach, a rhedodd mam, Sian a Laura oddi wrtha i. Diolch byth, gorfes i ddim talu amdani! Wps.

Y peth pwysicaf a ddysgest yn blentyn.
I fod yn barchus ac yn onest i bawb.

Y peth mwyaf rhamantus a wnaeth rhywun i ti erioed?
Mynd allan â fi i swper a phrynu blodau biwtiffwl i fi.

Beth oedd y frawddeg fachu orau a ddefnyddiaist erioed, neu'r frawddeg fachu orau a glywaist?
Beth yw Single Farm Payment chi?!!

Pryd a ble wyt ti mwyaf hapus?
Gyda Bleddyn allan ar y ffarm.

Beth yw dy lysenw?
Hadi (does neb yn nabod fy enw iawn i. Mae llawer yn meddwl mai fy enw iawn i yw Hadi!).

Y peth gorau am yr ardal hon?
Y golygfeydd.

Y peth gwaethaf am yr ardal hon?
Pawb yn meddwl bo nhw'n gwybod busnes pawb.

Pa iaith wyt ti'n ei defnyddio gyntaf?
Cymraeg.

Sut fyddet ti'n gwario £10,000 mewn awr?
Blaendal ar dy.

Pryd chwydaist ti ddiwethaf?
Llynedd ar ôl mynd allan i ddathlu pen-blwydd Mared yn Aberystwyth. Ych!! (ond noswaith ffantastig!)

Pryd est ti'n grac ddiwethaf?
Pan ges i bynctyr jyst ar ôl cael teiars newydd.

Ble oedd y lle mwyaf annisgwyl ti ddihuno ynddo yn y bore?
Yn sied Mared. Eistedd ar ben peiriant torri porfa ar ôl bod mas! Ddim wedi gweld allwedd y ty dan y mat.

Am beth wyt ti'n breuddwydio?
Ennill y loteri.

Ac yn bersonol?
Gwneud naid bynji dros yr afon Waikato yn Seland Newydd.

Wyt ti'n difaru rhywbeth?
Peidio aros yn hirach allan yn Seland Newydd.

Beth yw dy gyfrinach i gadw'n bert / i gadw'n gryf?
Digon o sebon……!!

Disgrifia dy hun mewn tri gair.
Doniol, lletchwith a gweithgar.

Pa gar wyt ti'n ei yrru?
Golf GT .

A'th hoff adeilad?
Ty Opera Sydney.

Beth yw'r cludfwyd o'th ddewis?
Indian o Shapla.

Sut wyt ti'n ymlacio?
Cysgu a chwtsio.

Pa un peth fyddet ti'n newid am dy hun?
Pen ôl (mae e'n llawer rhy fawr).

Pa ran o dy gorff yw dy hoff ran?
Wyneb.

Heblaw'r teulu, beth fyddet ti'n achub petai'r ty'n llosgi'n ulw?
Y cathod - Polly a Twm.

Beth sy'n rhoi ysbrydoliaeth i ti?
Gweld dad yn sgïo.

Ar beth y gwnest orwario arno fwyaf?
Prynu car MG ac wedyn ei werthu ar ôl i'r hwch fynd drwy'r siop.

Pa beth wyt ti'n ei drysori fwyaf?
Teulu, Bleddyn a'r ffôn symudol.

Pwy sy'n ddylanwad arnat ti?
Mam a Dad wrth gwrs!!

Y gwyliau gorau?
Teithio rownd y byd. Amser bythgofiadwy.

Pa dri lle yng Nghymru yr hoffet ymweld â nhw cyn dy fod yn hanner cant?
Yr Wyddfa, Bala, Barafundle Bay yn Sir Benfro.

Pa dair gwlad yr hoffet fynd iddyn nhw cyn marw?
Maldives, Hawaii a Chanada.

Ble fyddi di mewn deng mlynedd?
Wedi priodi gyda phlant gobeithio!

Testun Cyfrinachau'r rhifyn nesaf:
Aled Vaughan Jones,
'Llwyn', Llanfair

Swdocw

Sut i chwarae – Rhaid i chi gwblhau'r grid gyda phob colofn, pob rhes a phob bocs yn cynnwys y rhifau 1-9

Enw
Cyfeiriad

Cod post
Rhif Ffôn

Atebion i: Tŷ Cerrig, Cwmann, SA48 8ET
Gwobr: Pecyn Nwyddau Clonc
I'r ateb cywir cyntaf allan o'r het.

	2	3		4			7	
					6			2
9				2			8	
				9			6	5
		6		7		4		
8	1			6				
	6			8				7
5			9					
	7			3		9	5	

Atebion Swdocw mis Hydref:
Llongyfarchiadau i **Eric Jones, Pant-teg, Pentrebach,** ac i bawb arall am gystadlu: Eirlys Davies, Eurfann, Llanybydder; Bethan Williams, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Eurwyn Davies, Heol-y-Gaer, Llanybydder; Lis Williams, Bronallt, Llangadog; P. Buckley, Bryntegwel, Llanbedr Pont Steffan; Joan Stacey, Tynwaun, Ffaldybrenin, Eirlys Thomas, Awelfa, Llanybydder a Shirley Walker, Heol-y-Gaer, Llanybydder.



O'r Cynghorau Bro

Cyngor Tref Llambed

Maer: Rob Phillips; Clerc: Eleri Thomas; Cynghorydd Tref a Sir: Robert (Hag) Harris; Cynghorydd Sir: Ivor Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 30 Medi 2010 yn Neuadd yr Eglwys, Llanbedr Pont Steffan.

Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Cyngor y Dref gan y Maer. Offrymwyd gweddi gan John Davies.

Cafwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr mudiad Gofal a Thrwsio, Ceredigion, Dafydd Pughe-Jones ac Anthea Jones. Sefydlwyd y mudiad yn 1995 ac mae'n cynnig cyngor a chymorth i bobl mewn oed, pobl fregus a phobl ag anabledd er mwyn eu galluogi i gadw eu hanibyniaeth yn eu cartrefi eu hunain cyhyd â phosibl. Mae'r gwasanaeth yn rhad ac am ddim. Fe'i cyllidir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'r Awdurdod Lleol.

Gellir cysylltu â'r gwasanaeth Llun – Gwener, rhwng 9.00 a 4.30 yn Bodlondeb, Penparcau, Aberystwyth,SY23 1SJ. Ffôn 01970 639920 neu ar e-bost careandrepair@cantref.co.uk

Plismona: Er gwaethaf sefydlu parth dialcohol yn y dref, mae diota cyhoeddus yn dal yn broblem ar Sgwâr Harford ac yn Parc St. Germain-sur-Moine er eu bod o fewn y parth dialcohol dynodedig. Nodwyd bod yr heddlu wedi cipio alcohol a oedd ym meddiant rhai unigolion a bod un unigolyn yn wynebu achos.

Nodwyd bod cerrig beddau wedi'u difrodi ym mynwent Eglwys St Pedr.

Mae llawer o flychau casglu elusen wedi eu dwyn o'r dref. Roedd taflu sebon i Ffynnon Harford yn dal yn broblem a'r ffynnon yn gorlifo o ganlyniad. Mae'r cerbyd di-dreth, diberchennog sydd wedi ei adael ar y Comins yn dal yno.

Honnir bod nifer yr achosion troseddol wedi disgyn yn Llambed dros y flwyddyn ddiwethaf.

Nodwyd mai Selwyn Walters fyddai'n cynrychioli Cyngor y Dref ar y Pwyllgor Ymgynghorol ar Reoli Trafnidiaeth sydd wedi ei sefydlu rhwng cynrychiolwyr lleol a Chyngor Ceredigion.

Byddai adroddiad ar welliannau arfaethedig yn Sgwar Harford yn cael ei gyflwyno yn y man. Roedd y Cyngor o'r farn bod y ffynnon a'r sgwar yn nodweddion pwysig ac y dylid eu diogelu.

Celfi Cyngor y Dref: Yn yr hir dymor byddai'n rhaid dod o hyd i le gadw'r celfi a theimlid mai yn y dref ei hun y dylai hynny fod.

Darparu seddi yn y Stryd Fawr: Penderfynodd y Cyngor fynd i'r afael â'r mater.

Atgoffwyd y cynghorwyr am Wasanaeth Sul y Cofio ar 14 Tachwedd.

Cyngor Cymuned Llanwenog

Cadeirydd: Mary Thomas; Clerc: Gwennan Davies; Cynghorydd Sir: Haydn Richards.

Cyfarfu'r Cyngor ar 13 Hydref 2010

Cadarnhawyd y bydd y gwaith yng Nghae Chwarae Drefach wedi ei gwblhau erbyn diwedd y flwyddyn.

Roedd llythyr wedi ei ddanfon at y Cyngor am yr angen i raeanu'r heolydd yn enwedig tu allan i ysgolion y plwyf; nid oedd ymateb wedi ei dderbyn gan y Sir. Mae'r Sir yn bwriadu peidio â graeanu deuddeg o ffyrdd ond nid effeithir ar heolydd Llanwenog. Ar yr un pryd mae'n anhebygol y bydd rhagor o heolydd yn cael eu graeanu.

Trafodwyd dogfen arolwg am y trefnidau etholiadol newydd. Cynigwyd bod llythyr cryf yn cael ei anfon i wrthwynebu'r newidiadau. Nid oedd y cynghorwyr am i Blwyf Llanwenog gael ei reoli gan ardal drefol Llanbedr Pont Steffan.

Daeth llythyr oddi wrth y Cyngor Sir yn holi am ardaloedd yn y Plwyf a oedd yn dioddef llifogydd gwael. Soniwyd am ardaloedd Glanyrafon, Dolwen Fach a Highmead, ond nid oedd y Cynghorwyr yn teimlo bod y llifogydd yn yr ardaloedd hyn yn ddigon gwael i gwyno amdanynt.

Cyngor Cymuned Pencarreg

Cadeirydd: Danny Davies; Clerc: Eric Williams; Cynghorwyr Sir: Fiona Hughes, Eirwyn Williams

Cyfarfu'r Cyngor ar 4 Hydref 2010

Adroddwyd bod yr is-gadeirydd a'r clerc wedi mynychu seminar cynllunio yn Llandeilo a oedd wedi drefnu gan y Cyngor Sir.

Cymeradwywyd gwelliannau yn Coedeiddig-fach, cysgodfan yn Coedmor-fach ac ystafell haul yn Felinfach.

Penderfynwyd gofyn i Fiona Hughes holi pam yr oedd oedi pellach cyn cwblhau llwybr troed ger sgwar Cwm-ann.

Derbyniwyd cwynion fod y gwter ger Rhiwlas heb ei glanhau; bod yr arwydd 'Dan-yr-allt' ar y A485 wedi diflannu; bod y ffordd ger croesffordd Brynmanalog yn lleidiog iawn; bod draen ar y sgwar dan drwch o darmac.

Roedd seiliau Pont Glantawe wedi'u hadnewyddu a gwnaed gwaith canmoladwy yno.

Derbyniwyd llythyr oddi wrth Syrfeiwr y Sir yn ymddiheuro ei fod wedi mynnu bod y ffordd fynyddig yn Esgerdawe yn " Ffordd Werdd". Cyfaddefodd y swyddog fod y ffordd wedi'u rhifo'n U 4050, ac yn gymwys i'w chynnal gan y Cyngor Sir. Maent eisioes wedi trwsio rhai o'r tyllau mwyaf ar wyneb yr heol.

Y Cofgolfon. Mae'r gwaith o ailosod y fflagiau yn yr Ardd Goffa yn mynd rhagddo. .

Cyngor Cymuned Llanwnnen

Cadeirydd: John T.B.Williams; Clerc: Eirian Williams; Cynghorydd Sir: Haydn Richards

Cyfarfu'r Cyngor ar 19 Hydref 2010

Wedi i'r Cadeirydd groesawu pawb i'r cyfarfod, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

Trafodwyd nifer o faterion cynllunio a gohebiaeth gyffredinol, yn cynnwys nifer o geisiadau am gymorth ariannol.

Mynegwyd gofid fod rhai pentrefwyr yn anwybyddu'r arwyddion sydd wedi eu gosod o amgylch y pentref ynglyn â baw ci. Bydd y mater yn cael ei drafod gyda'r Cyngor Sir, ond yn y cyfamser dylid tynnu sylw fod cosb ariannol am y drosedd hon ac erfynnir ar bob perchen ci i lanhau'r palmant neu fannau glas o amgylch y pentref, er mwyn osgoi gorfod talu'r ddirwy benodedig am beidio â chlirio baw ci.

Dilynwyd y cyfarfod ffurfiol gan gyflwyniad Anthea Jones o 'Gofal a Thrwsio Ceredigion' pan soniodd am y gwasanaethau sydd ar gael yn rhad i'r oedrannus a'r bregus o fewn y sir.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 7 Rhagfyr am 8.00p.m. yn y Grannell.

Cyngor Cymuned Llangybi

Cyfarfu'r cynghorwr ar 29 Medi yn Ysgol y Dderi gyda'r Is-Gadeirydd yn llywyddu. Bydd y fan ger Maeslyn yn cael ei symud gan y Cyngor Sir. Roedd cais cynllunio Parcycoed wedi ei gadarnhau, a derbyniwyd ceisiadau oddi wrth berchnogion 3 Bro Deri, 2 Water Street, Blaenant ac i'r darn tir ger Capel Cilgwyn.

Enwebwyd y cadeirydd, yr is-gadeirydd, Cyng D. Boyle ac O. Davies i gynrychioli'r Cyngor Bro mewn cyfarfod gyda'r Cyngor Sir. Rhoddwyd enwau o'r mannau sydd yn cael ei poeni gan lifogydd i'r Cyngor Sir.

Derbyniwyd gwybodaeth am Ymarferion gan y Fyddin fydd yn cael ei cynnal yn yr ardal rhwng 9 a 16 Hydref.

Llongyfarchwyd y Cyng K. Edwards ar lwyddiant Parc Carafannau yn ddiweddar a hefyd Mr a Mrs Graham Williams am ennill gwobr gan y Cyngor Sir am eu gwaith diflino a chaled yn y gymuned. Mae'r ddau yn gweithio yn ddiwyd i gadw pentref Llangybi yn daclus a lliwgar. Cawsant jwg a'i henwau wedi eu hargraffu arni. Derbyniwyd gwybodaeth am y newidiadau tebygol sydd i ymddangos yn y ffiniau etholaethol – efallai y bydd Llanddewi a Llangybi yn ymuno ac yn cael un cynghorwr sirol yn lle dau fel y mae ar hyn o bryd i'w cynrychioli ar y Cyngor Sir.

Alltyblaca

Cyfle i Alltyblaca

Yn ystod mis Tachwedd bydd taflen yn cael ei dosbarthu i gartrefi yn Alltyblaca. Yr amcan yw gweld a oes yna bobl sydd yn byw yn y pentref a fyddai â diddordeb sefydlu cymdeithas neu gynnal dosbarth yn y capel. "Unwaith daw'r ymateb byddwn yn ystyried sut allwn ni symud ymlaen. Os bydd digon o alw, gallai hynny wedyn olygu bod modd i'r capel fod o ddefnydd ehangach i'r pentrefwyr. Yn hytrach na'i fod yn cael ei ddefnyddio bob pythefnos yn unig fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, y gobaith yw y gall mwy o weithgareddau gael eu cynnal yno a thrwy hynny byddai'r capel yn datblygu yn lle mwy canolog yn y gymuned unwaith eto," meddai'r gweinidog presennol Cen Llwyd.

HYSBYSEBU YN CLONC

"Mae mwy a mwy yn gweld gwerth mewn hysbysebu yn y Papur Bro."

Amcangyfrifir bod tua 3,000 o bobl yn darllen CLONC.
£10.00 am floc bach. £30.00 am chwarter tudalen.
£50.00 am flwyddyn o flociau bach.
Cysylltwch ag Ysgrifenyddes CLONC am ragor o wybodaeth:
01570 480015 neu ysgrifennydd@clonc.co.uk

Llanwnnen

Sefydliad y Merched

Dechreuodd yr aelodau â thymor yr Hydref wrth ymweld â'r Amgueddfa yn Abergwili. Wedi treulio prynhawn difyr yno aed ymlaen i dre Caerfyrddin am ychydig o siopa cyn cael swper yng Ngwesty'r Llwyn Iorwg. Diolchodd y llywydd Mrs Gwen Davies i Ceinwen a Mary am drefnu prynhawn hyfryd iawn.

Mis Hydref roedd ein Cyfarfod Blynyddol yng ngofal Mrs Ann Jones, Llanddewi Brefi. Ail etholwyd y swyddogion i gyd am flwyddyn arall ac edrychwn ymlaen am dymor hapus arall o dan lywyddiaeth Mrs Gwen Davies. Enillydd cystadleuaeth y mis am 4 sgonen oedd Mrs Gwen Davies.

Croeso

Croeso cynnes i Carys, merch fach i Bethan a Wyn, Pentrerys.

Ysgol Llanwnnen

Cawsom wahoddiad gan Ysgol Gyfun Llambed i fynd i weld ei sioe 'Annie'. Roedd hi'n hyfryd i weld cyn ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan.

Bu Cwmni Arad Goch yn perfformio 'O Gam i Gam' yn yr ysgol ar brynhawn dydd Mercher, Hydref 20fed. Braf oedd cael cwmni disgyblion Ysgol Llanwenog gyda ni hefyd.

Llanybydder

Cyfarchion

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Helen ac Alex yn Epsom ar enedigaeth mab, Morgan Alexander Samuel ac ŵyr bach i Mair, Tawelan.

Codi Arian

Cynhaliwyd noson arbennig yn y Llew Du Llanybydder ar yr 2ail o Hydref, sef noson i godi arian at Ambiwlans Awyr Cymru a Sglerosis Ymledol. Trefnwyd y noson gan Doreen Williams a Delyth Evans. Yn diddanu'r gynulleidfa luosog roedd y grŵp Jac y Do a'r digrifwr Don Davies a chafodd pawb hwyl gyda'r canu, y dawnsio ac wrth wrando ar y storïau digri. Cynhaliwyd ocsiwn ar y noson gyda Mark Evans o'r Brodyr Evans yn cael hwyl gyda'r gwerthu.

Yn ystod y noson tynnwyd y raffl fawr a oedd wedi cael ei gwerthu dros ardal eang ers misoedd. Yr enillwyr oedd - £50 Thomas Bwlchclawdd, New Inn; £40 Gibbard 2 Penybanc, Caerfyrddin; £30 Webster Worksop, Nottinghamshire; £20 Leanne 19 Ffynnonbedr, Llambed; £10 Davies Brynywawr, Llanpumsaint. Gwobrau eraill i Davies Glanyfferi a Meryl Lloyd Llanybydder. Cefnogwyd y noson gan gynllun punt am bunt Banc Barclays gyda chymorth un o'r staff, sef Rhian Jones. Diolch i bawb unwaith eto am eu cefnogaeth, am y rhoddion tuag at yr ocsiwn a'r gwobrau raffl.

O'r Cynulliad

gan Elin Jones AC

Roedd mis Hydref mor brysur â'r arfer wrth imi fynychu digwyddiadau ar hyd a lled Ceredigion. Fodd bynnag, y mis hwn fe fynychais ddau gyfarfod ynghylch Ysbyty Bronglais a'r gwasanaethau sydd ar gael yno. Cyfarfod yr oeddwn wedi ei drefnu ar gyfer Grŵp Ymgyrchu aBer gyda Chadeirydd a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Hywel Dda oedd y cyntaf. Yn ystod y cyfarfod, fe glywyd mwy am y bwriad i ymgynghori gyda'r cyhoedd ar gynlluniau i ddarparu mwy o driniaethau yn ein cymunedau ac fe gafwyd trafodaeth dda ar yr angen i gynnal ymgynghoriad agored a chynhwysfawr.

Wythnos yn ddiweddaraf, roeddwn yn falch i groesawu'r Gweinidog Iechyd i Ysbyty Bronglais er mwyn cynnal sesiwn holi ac ateb ar y cyd ar gyfer staff yr Ysbyty. Roedd modd i weithwyr godi unrhyw bryderon yn uniongyrchol gyda fi a'r Gweinidog ac rwy'n ddiolchgar iawn i Edwina Hart AC am deithio i Aberystwyth i fynychu'r sesiwn hwn.

I lawr yn Llambed, roeddwn yn falch iawn i fynychu gwasanaeth arbennig i gyflwyno Gwobr Ddiemwnt i Gynghrair Cyfeillion Cartref Hafan Deg. Rwy'n gwybod bod trigolion y cartref, ynghyd â phobl Llambed a'r ardal, yn ddiolchgar iawn am gyfraniad pwysig y staff a'r Gynghrair Cyfeillion i fywyd bob-dydd y cartref.

Ym Mhontrhydfendigaid, roedd hi'n fraint i fynychu cystadleuaeth Ysgoloriaeth Bryn Terfel yn y pafiliwn. Cafwyd cystadleuaeth dda a braf oedd gweld adeilad y pafiliwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer cystadleuaeth genedlaethol fel hyn. Hoffwn longyfarch pawb oedd yn cystadlu eleni a dymuno'n dda iddynt ar gyfer y dyfodol.

Yn olaf, mae lleoliad siop yr elusen leol Ffagl Gobaith wedi symud yn Aberystwyth ac roedd hi'n fraint i gael fy ngwahodd i agor y siop newydd yn ffurfiol yn ddiweddar. Mae Ffagl Gobaith yn darparu gwasanaeth amhrisiadwy ar gyfer cleifion â chancr ac rwy'n gobeithio y bydd y lleoliad newydd yn helpu codi hyd yn oed yn fwy o arian ar gyfer gwaith yr elusen.

Sarn Helen

Y gaeaf sydd o'n blaen yn awr a'r tymor trawsgwlad. Pen-y-bont ar Ogwr oedd lleoliad cyntaf cyfres Gwent. Rachel Priddey yn gorffen yn safle 21, 24 Rebecca Harrison, 48 Grace Page, 50 Sara Jones, 51 Delyth Ann Jones, 59 Michelle Priddey a 61 Nancy Doyle. Bechgyn nofis, 18 Thomas Willoughby, 44 Daniel Willoughby. Merched dan 13, 7 Cailtlin Page, 16 Ffion Quan, a Rhian Jones yn 38 dan 16. Ras y menywod 63 Dawn Kenwright, 67 Helen Willoughby, 101 Caryl Davies, 132 Jan Jones, 138 Elen Page, a'r dynion 27 Glyn Price, 47 Michael Davies, 60 Andrew Abbott, 142 Mark Dunscombe, 178 Dylan Davies, 237 Gwydion Williams, 252 Gareth Jones.

Ras hwyl Llanwenog: 1af Glyn Price 36 munud 45 eiliad, 2 Daniel Hooper 37 munud 40 eiliad, 4 Tony Hall 40 munud 01 eiliad, 5 Richard Marks 41 munud 02 eiliad, 6 Dylan Davies 41 munud 10 eiliad, 7 Gwydion Williams 42 munud 01 eiliad, 8 Eric Rees 42 munud 50 eiliad, 10 David Thomas 43 munud 39 eiliad, 11 Helen Willoughby 46 munud 35 eiliad, 12 Andrew Edgell 47 munud 35 eiliad, 13 Gareth Jones 47 munud 36 eiliad, 16 Lyn Rees 52 munud 40 eiliad, Ras y plant dan 8: 1af Dafydd Lewis, Bechgyn 9 oed ac yn hŷn: 1af Thomas Willoughby, 2 Daniel Lewis, 3 David Willoughby, a merched dan 9 1 Rachel Priddey, 2 Grace Page 3 Delyth Ann Jones, a'r merched oed ysgol uwchradd: 1af Caitlin Page 2il Ffion Quan.

Ras hanner marathon Llanwrtyd: Simon Hall yn gorffen yn 9fed 1 awr 36 munud , 10fed a chyntaf dynion 50 Tony Hall 1 awr 38 munud 10 eiliad, 16 Gwydion Williams 1 awr 45 munud 55 eiliad, 33 a chyntaf menywod agored Caryl Davies 1 awr 57 munud 57 eiliad, a 52 Allen Watts 2 awr 34 munud 36 eiliad.

Ar Dachwedd 28 bydd Ras Y Mast yn cael ei chynnal yn Blaenwern, Llanybydder. Ras y plant am 12-30, a ras yr oedolion 1 o'r gloch. Am fanylion pellach ffoniwch Lyn Rees 01570 434244.

Diwrnod agored yng Nghegin Gareth.

Gwahoddiad i chi ymuno â mi yn fy nghegin newydd, lle byddaf yn rhoi casgliad o syniadau ar gyfer 'Paratoi am y Nadolig'.

Naws y Nadolig

10.30	Cyrraedd y Goedwig am goffi a bisgedi.
11.00 -1.00	Arddangosfa goginio; tips a ryseitiau i'r Nadolig
1.00 - 2.00	Cinio Tri Chwrs.
2.00 – 3.30	Trefniannau blodau i addurno'r tŷ dros yr Ŵyl yn 'Steil Dolig 2010'
3.00 -3.30	Clonc, cwpanaid, a chacennau.

Lleoliad - Cegin Gareth, Y Goedwig
Dyddiad - Sadwrn 27ain o Dachwedd
Pris £22.50. I archebu tocyn, cysylltwch â Gareth 01570 422313

PRIFYSGOL CYMRU
Y Drindod Dewi Sant
UNIVERSITY OF WALES
Trinity Saint David

Ffair Nadolig Campws a Thref

Dydd Sadwrn 27 Tachwedd 2010

12.00 – 4.00 yp

Clasordy'r Brifysgol

Ymweld â Santa a chwrdd â'i geirw

Amrywiaeth o stondinau chrefft a bwyd

Eich siopa Nadolig i gyd o dan un to

Dewch i fwynhau ysbryd y Nadolig!

Os oes gennych ddiddordeb mewn mynychu stondin chysylltwch â
Heather Thomas 01267 676794
neu trwy ebost h.thomas@lamp.ac.uk

Yn y Gegin gyda Gareth

"Gwledd Guto Ffowc"

Y mis yma ychydig 'sbarc' sydd yn y gegin gan fod noson 'Tân Gwyllt' wrth y drws. Does dim byd yn well na noson oer wrth wylio'r arddangosfa ysblennydd. Dyma ychydig ddanteithion cartref i'ch cadw'n gynnes.

Beth am i chi fentro ar y ryseitiau yma wrth i chi wylio'r lliw yn llenwi'r awyr. Cadwch yn gynnes, Gareth.

Stiw Tân Gwyllt

Cynhwysion

2 llond llwy fwrdd o olew
450 gm o selsig
250 gm o foron wedi'u tafellu (sliced)
2 ddarn o seleri wedi'u tafellu
1 genhinen wedi'i thafellu
1 winwnsyn wedi'i dafellu
1 llond llwy de o baprika
1 llond llwy fwrdd o flawd plaen
500 ml o stoc
400 gm o domatos tun wedi'u darnio
400 gm o ffa cannellini mewn tun
2 llond llwy fwrdd o bersli wedi'i ddarnio
Halen a phupur.
Yn ychwanegol 50 gm o fenyn; 2 ewyn o arlleg; 1 baget

Dull

1. Cynheswch y ffwrn i 190ºC 375ºF Nwy 5. Cynheswch yr olew mewn padell ffrio fawr a choginiwch y selsig nes yn frown.
2. Tynnwch y selsig o'r badell ffrio ac ychwanegwch y moron, cennin, winwns a'r seleri a choginiwch am 3 i 4 munud. Ychwanegwch y paprika a'r blawd a choginiwch am 4 munud yn ychwanegol.
3. Ychwanegwch y stoc yn raddol gan gymysgu'n drwyadl, yna'r tomatos a'r selsig. Gorchuddiwch a'u coginio am 50 munud yn y ffwrn.
4. Tynnwch o'r ffwrn, ychwanegwch bupur a halen, y cannellini a'r persli. Rhowch yn ôl yn y ffwrn am 10 munud arall.
5. Cymysgwch y menyn a'r garlleg. Torrwch y baget yn dafellau a thaenwch y gymysgedd menyn arnynt. Rhowch ar wyneb y stiw ac yn ôl yn y ffwrn nes bod y bara'n frown.

'Strudel' afal a chnau.

Cynhwysion

50gm o friwsion bara gwyn
125gm o fenyn
600gm o afalau coginio wedi'u crafu; gwared y canol a'u darnio.
1 llond llwy de o sinamon
1 llond llwy de o sinsir
50gm o siwgr brown meddal
50gm o gnau Ffrengig (walnut) wedi'u darnio
25gm o gnau almon wedi'u darnio
30gm o stem ginger wedi'i ddarnio'n fân
50gm o sultanas
5 darn mawr o does 'filo' (filo pastry)

Dull

1. Trowch y ffwrn i 200ºC, 400ºF, Nwy 6. Ffriwch y briwsion mewn 25gm o fenyn nes yn euraid. Cymysgwch yr afalau, y sbeis, siwgr, cnau, sinsir a sultanas.
2. Toddwch weddill y menyn a rhowch dros un darn o does filo gyda brws. Gwnewch yr un peth i'r bedair arall. Rhowch y toes ar dun pobi (baking tray).
3. Taenwch y briwsion dros y toes gan adael border o 5cm yn glir. Rhowch y gymysgedd afal arnynt. Rholiwch nhw'n ofalus gan ofalu selio'r ochrau. Brwsiwch y menyn drostynt. Coginiwch am tua 40 munud nes yn euraid.
4. Taenwch siwgr eisin drostynt a gweinwch yn gynnes.

Hysbysebion rhifyn Rhagfyr 2010

Bydd rhifyn Rhagfyr yn cynnwys dros 100 o hysbysebion wrth fusnesau lleol. Os nad oes neb wedi galw gyda chi, mae croeso i chi gysylltu â ysgrifennydd@clonc.co.uk mor fuan â phosib. Diolch.

MIS Y PAPUR NEWYDD

Colofn Dylan Iorwerth

Dwy sioe, dau brofiad, dwy glamp o noson dda

Roedd hi'n sioc. Cerdded i mewn i Theatr Felin-fach a gweld llond y lle o ddynion. Ffermwyr, meibion ffermydd a'u ffrindiau'n llenwi'r rhan fwya' o'r seddi. A llenwi ydi'r gair.

Roedd y rhan fwya' ohonyn nhw hefyd yn ifanc, yn gyfforddus o dan y 40 oed ac mi faswn i'n fodlon mentro nad oedd y rhan fwya' ohonyn nhw, fel rheol, yn mynd i'r theatr am noson allan. Ond roedden nhw yno' r tro hyn.

Sioe ddiweddara' criw Garn Fach oedd hi a, phan fydd honno'n digwydd, mae'r gynulleidfa yn Felin-fach yn hollol wahanol i'r arfer. Llawer llai o fenywod nag arfer ac, yn ddoeth iawn, dim plant bach. Heblaw'r ddau a gafodd eu geni ar y llwyfan yn ystod y ddrama, wrth gwrs.

Mi fyddai'n ddiddorol gwybod a fyddai hiwmor y Garn Fach yn gweithio tros weddill Cymru. Mewn ardaloedd gwledig, yng Mhen Llŷn a Phenllyn ac Uwchaled, falle, ond yng Nghaerdydd neu Gwm Tawe, ddim cystal.

Mi fyddai rhai pethau'n siŵr o weithio ym mhobman, am fod safon yr actio a rhai o'r jôcs mor dda. Ond mae angen deall rhywfaint ar y gymdeithas a'r rhan bach yma o'r ddaear i ddeall y gweddill yn iawn.

Yn ardal Caernarfon, lle ces i fy magu, tynnu ar ei gilydd gyda geiriau y mae pobol. Tynnu coes, insyltio, gwneud hwyl am ben ein gilydd, cymryd y pi-pi'n ddidrugaredd ... felly'r oedd hi. Ond, ym myd y Garn Fach, mae'r herian yn llawer mwy corfforol.

Mae peiriannau mawr swnllyd yn allweddol a phoen hyd yn oed yn ddoniol ... o'r ffarmwr lletchwith i'r dysgwr o hipi'n cyflwyno rhaglen deledu am fyw yn yr awyr iach.

Fel rheol, ar fideo yr oedd llawer o'r stwff, a thipyn yn dynwared rhai o gonfensiynau arferol y byd teledu ac yn eu troi nhw ar eu pen. Fel yn achos y rhan fwya' o hiwmor llwyddiannus, maen nhw'n llwyddo am eu bod nhw o ddifri.

Dw i'n fodlon mentro, y flwyddyn nesa', y bydd y dynion yn ôl. A finnau hefyd.

Caryl ... a'i ffrindiau

Sioe hollol wahanol oedd yn Felin-fach rhyw bythefnos wedyn ac roedd y dyrfa'n fwy cyfarwydd. Mwyafrif o fenywod, ychydig o blant ac ambell ddyn bach ufudd fel fi.

Caryl Parry Jones oedd yno, yn gwneud peth arall sy'n brin yn Gymraeg, sioe un person ... nid cyngerdd na Noson Lawen ond cyfuniad o ganeuon a sgwrsio am eu cefndir nhw.

Nid sgwrsio diamcan chwaith, ond sioe wedi ei sgriptio, yn llawn jôcs ac ambell i gip deimladwy o bersonol. Roedd rhai o hen 'ffrindiau' Caryl Parry Jones yn ymddangos ... fel Lavinia, a Glenys ... ac o leia' un ffrind newydd, ar lun un o blant ysgolion Cymraeg y de-ddwyrain.

Roedd y cyfan wedi'i gyflwyno efo amseru perffaith a chryn dipyn o wneud hwyl am ei phen ei hun. Roedd yn caniatáu iddi gyflwyno'r caneuon a hyd yn oed frolio'i rhieni, heb swnio'n ymffrostgar na llawn gwynt.

Dydw i ddim yn feirniad canu, ond mi faswn i'n dweud ei bod hi wedi dysgu sut i berfformio efo llais sydd heb fod mor gryf na cweit mor hyblyg ag yr oedd flynyddoedd yn ôl. Ac, efo dim ond piano'n gyfeiliant, roedd yr effaith weithiau'n wefreiddiol.

Yn sydyn, roedd hen ffefrynnau fel Bugail Aberdyfi a Bugeilio'r Gwenith Gwyn yn ffitio'n berffaith wrth ochr Caer Arianrhod a Chwarae'n Troi'n Chwerw ac yn swnio'r un mor fodern. Alawon da, cyflwyniad syml, celfydd ... does dim angen mwy.

Sioe newydd oedd hon ... a chymryd y bydd hi'n teithio, mi fydd yn gwella eto wrth i Caryl Parry Jones ddod yn fwy a mwy cyfarwydd efo'r sgript a thrwy chwynnu ambell i jôc oedd ddim yn gweithio'n llawn.

Os bydd hi'n teithio, mi fydd yn apelio ymhobman ac os cewch chi'r cyfle, ewch.

Cegin Gareth
Goedwig
Llanbedr P.S.
SA48 7JP
01570 422 313
Blodau
Cacennau
Dathliadau
Partion

Ysgol Cyfun Llanbedr Pont Steffan

Llongyfarchiadau i Lowri Pugh-Davies ar ei llwyddiant yn Eisteddfod Gadeiriol Pantyfedwen. Enillodd y wobr gyntaf yn yr adran Ddylunio a Thechnoleg am fag a wnaeth fel rhan o'i gwaith cwrs AS eleni. Dyma'r ail flwyddyn yn olynol iddi fod yn llwyddiannus yn y gystadleuaeth yma. Cafodd lwyddiant y llynedd gyda'i gwaith cwrs TGAU sef 'sgrin storio'. Derbyniodd Dlws Yr Ifanc am ei holl waith yn yr adran Gelf a Thechnoleg.

Mae Lowri ar hyn o bryd yn astudio Celf, Dylunio a Thechnoleg a Busnes ym mlwyddyn 13 ac mae'n gobeithio mynd i'r Brifysgol y flwyddyn nesaf i astudio Celf, Dylunio a Thechnoleg neu ffasiwn. Yn y dyfodol mae Lowri yn ystyried gyrfa naill ai ym myd addysg neu mewn Celf a Dylunio. Dymunwn bob lwc iddi.

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Clwb Ieithoedd Tramor newydd yr ysgol yn ystafell 15 ar y 14eg o Fedi. Fe ddaeth bron i 40 o ddisgyblion Bl. 7, 8 a 9 ynghyd i roi eu barn ynglŷn â'r hyn yr hoffent ei wneud yn y clwb. Braf oedd gweld y diddordeb cyffredinol mewn dysgu amrywiaeth o ieithoedd. Cafodd y disgyblion y cyfle hefyd i ofyn i aelodau'r Chweched dosbarth pam eu bod wedi penderfynu parhau ag astudio ieithoedd. Cynhaliwyd cystadleuaeth hefyd i greu enw i'r clwb newydd.

Yn dilyn y cyfarfod, cafodd disgyblion y 6ed y cyfle i ddewis enw i'r clwb o blith yr holl gynigion a gafwyd ac fe benderfynwyd mai cynnig Ffion Jones, Bl. 9 , sef Bonjour oedd y cynnig gorau. Da iawn ti Ffion! Diolch o galon i ddisgyblion Bl. 10 hefyd a fu'n bresennol ac a fu'n help mawr wrth drefnu'r Clwb!

Yn dilyn canlyniadau arholiad TGAU ardderchog, roedd yn hyfryd gweld cynifer o ddisgyblion yn dychwelyd i Flwyddyn 12 eleni. Cynhaliwyd y diwrnod ymdrwytho ym Mhrifysgol Llanbed ar ddydd Gwener, Medi 3ydd pan gafwyd cyfle i fwynhau darlith gan Mererid Hopwood. Croesawyd y disgyblion nôl i'r chweched gan ein Prifathro, Mr Wyn, a bu'r Prif Fachgen, Ben Lake, a'r Brif Ferch, Elliw Dafydd, yn rhannu eu profiadau nhw o fywyd yn y chweched dosbarth gan gynnig cyngor doeth i'r myfyrwyr newydd.

Mae'r flwyddyn wedi dechrau yn brysur iawn i'r myfyrwyr galwedigaethol. Mae disgyblion Bl. 13 Teithio a Thwristiaeth wrthi yn trefnu ymweliadau i wahanol lefydd fel rhan o'u haseiniad. Mae un grŵp yn bwriadu trefnu taith dramor tra bod yr ail grŵp yn trefnu i ddisgyblion Bl. 10 sy'n astudio Busnes a Hamdden ymweld ag Abertawe a'r ffatri siocled yn Fforestfach.

Mae Bl. 12 i gyd wedi cael blas ar fentergarwch wrth iddynt gymryd rhan mewn diwrnod Menter ddechrau'r tymor. Yr her oedd ceisio rhedeg bar gwin gan wynebu a datrys problemau ar hyd y daith. Cafodd y disgyblion ganmoliaeth uchel gan y trefnwyr. Diolch i Gyrfa Cymru am drefnu'r gweithgareddau.

Fe gafodd disgyblion Bl. 11 ddiwrnod diddorol iawn yn ymweld â Stadiwm y Mileniwm ar gyfer Cynhadledd Yrfaoedd a drefnwyd gan Skills Cymru. Cawsant gyfle i gymryd rhan mewn gwahanol weithgareddau yn ogystal â holi llu o arbenigwyr ynglŷn â'u gyrfaoedd.

Hoffai Bl.7 ddiolch i PC Jackie Stevenson a PC Gwyndaf Lloyd am drefnu bore gyda'r Criw Craff. Bu'n gyfle i'r disgyblion ddysgu am Iechyd a Diogelwch mewn gwahanol sefyllfaoedd yn eu bywydau, gan gynnwys Cymorth Cyntaf, Diogelwch ar y Ffyrdd, yr Arfordir a materion Trydanol. Diolch yn arbennig am y cof-bin er mwyn eu hatgoffa am y peryglon.

Yn ystod yr ail gyfarfod fe fuom yn dathlu'r Diwrnod Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. Dangoswyd lluniau o'r digwyddiad a gynhaliwyd yng Nghanolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd y Sul blaenorol ac fe gwblhawyd dau gwis. Cafwyd pedwar enillydd teilwng i'r gystadleuaeth sef Kamil Drozd, Bl. 9, Lauren Evans, Sophie Herron a Cerian Jenkins, o Fl 7.

Yn y cyfarfod nesaf bwriedir rhoi blas ar yr Eidal a'r Eidaleg.

Yn ystod y misoedd nesaf, fe fydd disgyblion Bl. 12, sy'n astudio'r Ffrangeg, yn mynd i Ysgol Ffynnonbedr i'w helpu i ddysgu'r iaith. Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn fawr at y profiad!

Bu Christopher Barker a Caleb Davis o Flwyddyn 9 yn cynrychioli'r ysgol yn ddiweddar yng Nghystadleuaeth Ddadlau CEWC Cymru a gynhaliwyd yn Ysgol Y Preseli, Crymych. Bu'r tîm yn dadlau dros y gosodiad, 'Dylai'r Deyrnas Unedig flaenoriaethu taclo'r economi yn hytrach na cheisio atal y newid yn yr hinsawdd'. Roedd yna dimau o wyth ysgol uwchradd yn cystadlu a chafwyd prynhawn o ddadlau difyr iawn. Tîm o Ysgol Dyffryn Taf fydd yn mynd ymlaen i'r rownd nesaf yn y gystadleuaeth. Diolch hefyd i Max Zinn o Flwyddyn 8 a Liam Walters o Flwyddyn 9 am hyfforddi tîm Llanbed. Cyn y gystadleuaeth, bu'r tîm yn ymarfer ei sgiliau dadlau mewn cyfarfod arbennig o'r Gymdeithas Ddadlau. Cynhaliwyd pleidlais ar ddiwedd y ddadl a'r canlyniad oedd 11 o blaid blaenoriaethu taclo'r economi ac 13 yn erbyn y gosodiad.

Ar Fedi'r 10fed bu disgyblion sy'n astudio Cerdd TGAU yn Aberaeron yn gwrando ar 'Piano Circus', sef ensemble o chwech piano. Buont hefyd yn derbyn cyngor ac yn trafod syniadau ar gyfer y gystadleuaeth 'Cyfansoddwr Ifanc Dyfed'. Derbyniwyd tips hefyd gan y cyfansoddwr gwadd am eleni , Peter Reynolds. Roedd yn sesiwn ddiddorol iawn gyda holl ysgolion Ceredigion yn bresennol ac roedd clywed chwech piano yn perfformio amrywiaeth o ddarnau yn brofiad newydd i bawb.

Y mae'r disgyblion canlynol wedi bod yn cwrdd bob nos Wener yn ysgol Aberaeron fel aelodau o Fand Chwyth a Cherddorfa Linynnol Ceredigion:-

Band Chwyth - Joshua Yardy (Bl 8) - Cornet

Cerddorfa Linynnol - Jonah Choi (Bl 8) - Ffidil, Arianna Morris (Bl 7) - Sielo

COMPASS
OFFICE SUPPLIES
Am eich holl ddeunydd swyddfa
Uned 19, Stâd Ddiwydiannol Llambed, Heol Tregaron, Llambed.
☎ 01570 422955
🖷 01570 422232

Mwnci ffwnci
Brodweithio a Phrintio Dillad.
Darparu Dillad Gwaith a Hamdden.
Sioned Green a Mared Jones
Nantgwyn, Heol Llanfair Llambed
☎01570 423135
07811917799 / 07968821035
mwnciffwnci@hotmail.com

CEGIN GWENOG
Abernant, Llanwenog
Gwasanaeth arlwyo cyflawn ar gyfer pob achlysur
- Bwyd Priodas
- Bwffe
- Te Angladd
- Digwyddiadau Maes

Bwydlenni unigol i ateb eich gofynion chi - boed yn fawr neu'n fach
Mair Hatcher
01570 481230 / 07967 559683

WILLIAMS & BOURNE
CYFREITHWYR, COMISIYNWYR LLWON
Trosglwyddiadau a phob gwasanaeth cyfreithiol.
Ymweliadau â'r cartref yn bosibl.
1 Sgwâr Harford, Llambed
☎ 01570 422206 🖷 01570423540
A thrwy apwyntiadau yn Nhregaron, Llanybydder, Castell Newydd Emlyn a Chaerfyrddin.

Colofn yr Urdd

Taith i Batagonia

Ddydd Mercher, 20 Hydref, aeth 23 o bobl ifanc ledled Cymru i deithio i Batagonia i rannu yn rhyfeddod y Gymraeg a'r diwylliant Cymreig yn Y Wladfa. Dyma'r drydedd flwyddyn i'r Urdd drefnu'r daith ar y cyd â Menter Patagonia, gan gynnig y cyfle i aelodau'r Urdd ymweld â De America a phrofi sut y cyfunir diwylliannau Cymru a'r Ariannin yno. Bydd y criw yn cystadlu yn Eisteddfod y Wladfa, yn gwneud gwaith gwirfoddol a phaentio yn Ysgol yr Hendre. Byddan nhw hefyd yn cymryd rhan mewn cymanfa ganu, yn ymweld â thai te Cymreig, yn helpu cangen Merched y Wawr Esquel, yn ogystal ag ymweld â nifer o fannau diddorol yn y wlad. Rhan o waith y criw fydd cynnal sesiynau trafod a gwirfoddoli gyda phlant a phobl ifanc y Wladfa gan ddefnyddio'r Gymraeg a'r Sbaeneg. Yn eu mysg bydd :

- Ifan Hywel (Ysgol Penweddig), Elgan Evans (Ysgol Tregaron), Cadi Jenkins (Ysgol Dyffryn Teifi), Hana Medi Morris (Ysgol Dyffryn Teifi), Holly Cortlett (Ysgol Tregaron), Guto Gwilym (Ysgol Dyffryn Teifi) a Meirian Morgan (Ysgol Tregaron) o Geredigion

Yn ôl un o'r criw, Guto Gwilym, 18, o Lambed, Ceredigion: "Mae'n gyfle gwych bod yn rhan o daith yr Urdd i Batagonia. Mae'r lle yn agos iawn at ein calonnau, er ei bod hi'n hynod anodd i ni ddychmygu sut yn union roedd y Cymry cyntaf yna'n teimlo wrth gyrraedd yno yn 1865. Rwy'n edrych mlaen i ail droedio rhai o'u llwybrau, a chael gweld trosof fy hun sut mae pethau'n datblygu yno. Mae'n anodd amgyffred y dirwedd sych, defnyddio'r Gymraeg a'r Sbaeneg, a'r anawsterau sy'n wynebu'r genhedlaeth hŷn wrth geisio hybu'r iaith Gymraeg a'r diwylliant i'r to iau. Dwi'n bendant yn gyffrous i brofi sut y mae'r iaith, y diwylliant a'r dreftadaeth wedi datblygu ym Mhatagonia."

Nofio yn yr LC2

Bu rhai o'r ardal ar daith gyda'r Urdd ddydd Gwener hanner tymor yn mynd i Bwll Nofio LC2 yn Abertawe yn y prynhawn ac yna i weld gêm rygbi'r Scarlets v. Rhyfelwyr Glasgow yn yr hwyr.

Adran yr Urdd Llambed

Unwaith eto eleni mae'r trefniadau ar gyfer y tymor wedi eu gwneud ac mae'r aelodau yn wynebu gwledd o wahanol weithgareddau.

Dechreuodd y tymor gyda noson Bingo a chafodd dros 40 o blant lawer o hwyl a sbri. Fe wnaeth sawl plentyn ennill gwobrau ac roedd pawb wedi mwynhau. Noson o Ddrama oedd ar y fwydlen nesaf ac yng nghwmni Miss Catrin Pugh cafodd pawb gyfle i weithio mewn grwpiau i grau sgetsys bach ac i chwarae gêmau. Siawns arbennig i ddarpar actorion ddangos eu doniau. Ar Dachwedd 4ydd fe fydd blynyddoedd 5 a 6 yn mynd i'r Carnifalwn a gwnaeth pawb dreulio noson yn paratoi ar gyfer yr hwyl wrth dynnu lluniau a sgwennu barddoniaeth.

Yr wythnos hon aeth yr adran i gwrdd â Mrs Liz Harding yn yr Ysgol Uwchradd. Roedd hi wedi trefnu noson i greu graffiti. Mae'r aelodau wrthi yn defnyddio eu sgiliau newydd i greu llun a'i osod ar ffurf graffiti ar hysbysfwrdd a fydd yn cael ei arddangos yn yr ysgol. Da iawn bawb a wnaeth gymryd rhan.

Diolch i bawb sydd yn cynnig cymorth i'r Adran mewn unrhyw ffordd; heb eich cefnogaeth ac arbenigedd ni fyddai'r aelodau yn derbyn profiadau mor werthfawr!

Adran Bro Gwenog

Mae'r Adran wedi cyfarfod yn fisol ers dechrau mis Medi. Cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf yn Ysgol Llanwnnen ar nos Fawrth, 14eg o Fedi pan fu Pete Ebbsworth yn ein diddanu drwy chwarae nifer o gêmau iard. Yna, ar Hydref 5ed yn Ysgol Llanwenog cawson noson hwyliog arall.

Mae croeso i unrhyw ddisgybl o flwyddyn 2 – 6 fynychu. Bydd y cyfarfod nesaf yn Ysgol Llanwnnen ar nos Fawrth, Rhagfyr 7fed rhwng 5:45 a 7:15 pan bydd noson o garioci yn cael ei chynnal.

Tlws John a Ceridwen Hughes

Daeth yr amser unwaith eto i ni ystyried enwau ar gyfer y tlws uchod. Fel y cofiwch, mae'r Urdd wedi derbyn cynnig caredig y teulu i gyflwyno tlws yn flynyddol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd i unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad sylweddol i ieuenctid Cymru.

Hoffwn dynnu eich sylw at y pwyntiau canlynol:

- Gellir ystyried rhywun sydd wedi cyfrannu at waith ieuenctid yn y gorffennol ond sydd wedi rhoi'r gorau iddi erbyn hyn, yn ogystal, wrth gwrs, â rhai sydd yn dal i weithio gyda phobl ifanc.
- Gofynnir i chi ddefnyddio'r ffurflen enwebu briodol sydd ar gael o Swyddfa'r Urdd.

Dylid ystyried y pwyntiau isod wrth enwebu unigolion:

- Dylai'r gwaith fod trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg neu'n ymwneud ag ieuenctid sy'n dysgu'r iaith.
- Dylai fod yn waith wyneb yn wyneb â phobl ifanc dros 11 oed a thu allan i'r gyfundrefn addysg ffurfiol.
- Gall ymwneud ag unrhyw agwedd o waith ieuenctid (diwylliannol, corfforol, dyngarol, cymdeithasol, gyda phobl anabl, gyda dysgwyr, rhoi cyfle i ieuenctid gyfrannu, gwaith awyr agored, cyfnewid ac yn y blaen).
- Gall fod yn waith gydag unrhyw fudiad ieuenctid.

Os am ffurflen enwebu cysylltwch ag Enfys Davies, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, ar 01970 613103, neu trwy e-bost - enfys@urdd.org. Y dyddiad cau fydd dydd Mercher, 1 Rhagfyr 2010.

Alec Page Gof

Gwaith metal o safon i'r tŷ a'r ardd.
Dewch i drafod eich syniadau.
Yr Efail, Barley Mow, Llambed.
01570 423955

WILLIAMS
CONTRACT SERVICES CYF
Peiriannau Hirio, Peirianwyr Cyffredinol, Gwaith Sylfaen, Menage, Tirlunio, Garddio, Ffensio, Adeiladu a Gwaith Cynnal a Chadw
Symudol: 07896747951
Ffôn: (01559)362575
Ffacs: (01559)363555
Tŷ Mari, Heol Horeb, Llandysul SA44 4JN
e-bost: sales@williamscontractservices.co.uk
Y we: www.williamscontractservices.co.uk

T. Emyr Jones Adeiladwr

Araul, Cwmann
☎ 01570 423921
07867 945174

CANOLFAN ADDURNO AA A
Dewis arbennig o bapur, paent ac offer i wneud addurno yn bleser.
Llyfrau Patrwm, Offer llaw a phwerus, Polion a thraciau llenni, gwasanaeth torri allweddi a pheiriannau cymysgu paent Dulux a Leyland.
Arbenigedd ar garreg eich drws.
3 Stryd y Bont
Llanbedr Pont Steffan
01570 423156

Cludfwyd Indiaidd
NEHAR

Y bwyd wedi ei goginio'n fres bob dydd.
15% o ostyngiad ar archebion dros £10.00.
Y cogydd â dros 20 mlynedd o brofiad o weithio mewn sefydliad indiaidd.
10 Stryd y Bont, Llambed
☎ 01570 422893 / 422175

Cornel y Plant

I blant dan 8 oed

Tyngrug-Ganol,
Cwmsychpant,
Llanybydder.

Annwyl Ffrindiau,

Helo blant, sut ydych chi? Mae mis Tachwedd wedi cyrraedd a noson Guto Ffowc yn agosau! Dwi wrth fy modd yn gweld y tân gwyllt ar noson Guto Ffowc ac mi fydda i a'm ffrindiau i gyd yn brysur iawn yn creu coelcerth fawr. Lle byddwch chi'n mynd i wylio'r tân gwyllt? Ydych chi'n hoffi'r sbarclyrs neu'r olwyn Gathrin tybed?

Bu llwyth ohonoch chi'n brysur iawn yn ystod y mis yn lliwio llun y wiwer yn casglu cnau ac roedd ôl ymdrech fawr i'w weld ym mhob un o'r lluniau. Da iawn chi gyd - penigamp! Llongyfarchiadau mawr i bawb ond yn arbennig i Efa Grug Jenkins o Gapel Cynon, Owen Heath a Lauren o Lambed a Iestyn Evans o Lanybydder. Ond yn dod i'r brig y mis hwn mae Betsan Mai Davies, 21 Y Ffawydd, Llandysul. Llongyfarchiadau mawr i Betsan a phawb wnaeth gystadlu. Ewch ati nawr i liwio llun o'r tân gwyllt! Danfonwch nhw ataf i erbyn dydd Llun, Tachwedd 22ain.

Hwyl am y tro,



Enillydd y mis!

Betsan Mai Davies

Enw:

Cyfeiriad:

Calendr Clonc

I bawb dan 18 oed

Cyfle i Ffotograffwyr Ifanc

Bwriada Clonc gyhoeddi Calendr ar gyfer y flwyddyn 2012 gan gynnwys llun gwahanol i bob mis. Y gobaith yw y bydd y calendr ar werth yn nhymor yr Hydref 2011.

Yn wahanol i'r calendr diwethaf a gyhoeddwyd gennym nôl yn yr wythdegau, lluniau lliw cyfoes a gynhwysir y tro hwn. Gofynnwn i bobl ifanc fynd ati i dynnu lluniau gyda'u camerâu digidol o olygfeydd yn yr ardal.

Am y flwyddyn nesaf, bydd cystadleuaeth ffotograffiaeth fisol yn Clonc. Gofynnir am lun o olygfa yn yr ardal am yr amser hwnnw o'r flwyddyn.

Yn y rhifyn hwn, rhifyn Tachwedd, rydym yn chwilio am luniau'r Hydref. Ac yn y rhifynau nesaf bydd angen lluniau i gynrychioli'r tymhorau eraill

Gall y llun fod yn olygfa yn y pentref neu'n olygfa wledig, gall gynnwys anifeiliaid y ffarm neu bobl leol mewn digwyddiad fel carnifal, mart, ffair neu sioe. Anogir chi i fynd ati i dynnu digon o luniau. Bydd hi'n bwysig bod cynrychiolaeth o bob pentref dalgylch Clonc yn y calendr terfynol.

Rhoddir gwobr arbennig bob mis i'r llun gorau a bydd panel o Fwrdd Busnes Clonc yn dewis y lluniau mwyaf addas ymhen blwyddyn i'w cyhoeddi yn y calendr.

Wrth gystadlu, bydd pob cystadleuydd yn rhoi'r hawl i Clonc ddefnyddio'u lluniau i'w cyhoeddi yn y calendr. Gwerthir y calendr wedyn er mwyn codi arian i goffrau'r papur bro.

Derbynnir y lluniau ar ffurf jpg ar ddisg neu e-bost yn unig, heb eu lleihau. Danfonwch eich disg i Tŷ Cerrig, Cwmann, Llanbedr Pont Steffan, SA48 8ET, neu danfonwch y llun yn uniongyrchol drwy e-bost i cystadleuaeth@clonc.co.uk Dyddiad cau derbyn lluniau'r mis hwn yw:
Dydd Iau 18fed Tachwedd.

Negeseuon

Cystadleuaeth Cerddi Dic yr Hendre

Llongyfarchiadau i Siwan Davies, Llys Deri, Llanwenog am ennill y gystadleuaeth yn rhifyn Hydref Clonc. Gobeithio y cei flas ar y llyfr gwerthfawr hwn.

Diolch

Dymuna Miss E H Jones, Trewen, Maesderwenydd, Pencader ddiolch yn fawr iawn i bawb am eu caredigrwydd, eu haelioni, a'u dymuniadau da ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr.

Camera ar eich ffôn?

Dyma rif ffôn Papur Bro Clonc - **07837 447122**. Os ydych yn gweld cyfle am lun a fyddai o ddiddordeb i ddarllenwyr Clonc, tynnwch lun gyda'ch ffôn symudol a'i ddanfon mewn neges destun i'r rhif ffôn uchod. Bydd eich cwmni ffôn yn codi tâl am hyn.

Cefnogwch ein busnesau...

CYFRi

CYNGHORWYR ARIANNOL ANNIBYNNOL
INDEPENDENT FINANCIAL ADVISERS

23 Stryd y Coleg, Llanbedr Pont Steffan, SA48 7DY
T 01570 423823 E post@cyfri.co.uk W www.cyfri.co.uk

Ydych angen cymorth i gael eich materion ariannol mewn trefn?
Am gyngor diduedd annibynnol ar amryw o faterion ariannol, yn cynnwys:

Buddsoddiadau, Pensiynau, Treth Etifeddiaeth, Yswiriant Bywyd, Yswiriant salwch difrifol a diogelwch incwm, Morgeisi.

Gary Davies BSc(Hons), Cert PFS
Beca Hands BSc(Hons), MSc(Hons), Cert PFS, Cert CII(MP)

Cysylltwch â ni am wasanaeth proffesiynol y gallwch ymddiried ynddo.

Mae'n bosib i werth eich buddsoddiadau a'ch pensiwn gostwng yn ogystal â chynyddu. Nid ydych yn sicr o gael eich buddsoddiad gwreiddiol yn ôl.

LAS Recycling Ltd

Angen Sgip?
Diwydiannol, Masnachol neu i'r cartref.
Sgip i bob pwrpas
Rhowch alwad i ni ar **01570 421421**

Ffordd Tregaron, Llambed, Ceredigion. SA48 8LT

Priodas Dda....

Ar yr unfed ar ddeg o Fedi 2010 yng Nghapel yr Erw, Cellan priodwyd Rhian Eleri, merch Glyndwr a Margaret Jones, Y Glyn, Cwmann â Ben Morris, mab Stephen a Janine Morris, Southampton. Cynhaliwyd y wledd yng Ngwesty'r Cawdor, Llandeilo. Mae'r ddau wedi ymgartrefu yng Nghaeredin.

Adfywio Cymunedol Gwledig
Rural Community Regeneration

Cynllun Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru
Rural Development Plan For Wales

Hyb Hyb Hwre

Hub Hub Hooray

Dathlwch llwyddiant y prosiectau cymunedol sydd yn eich ardal chi.
Dewch i rannu eich syniadau ac i gwrdd â'r tîm.
Celebrate the success of current community projects in your area.
Come to share your ideas with us and meet the team.

Neuadd Gymunedol Eglwys Llanllwni (Maesycrugiau) Dydd Mawrth, Tachwedd 30ain.
Llanllwni Community Church Hall (Maesycrugiau) Tuesday November 30th.
Neuadd Gymunedol Eglwys y Drindod Sanctaidd (Castell Newydd Emlyn). Dydd Mawrth, Tachwedd 16eg
Holy Trinity Church Community Hall (Newcastle Emlyn). Tuesday November 16th
Dewch i ddangos eich cefnogaeth
Please come and show your support

Am wybodaeth pellach cysylltwch â'r Biwro Cymunedol - (01269) 590 216
For further information contact the Community Bureau - (01269) 590 216

Menter Bro Dinefwr
Cyngor Sir Gâr Carmarthenshire County Council
LEADER
Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
The European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

Digwyddiadau'r fro

Aelodau Ysgol Sul Capel-y-Cwm, Cwmsychpant gyda'u hoff lyfrau adeg y Cwrdd Diolchgarwch a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Tîm dan 8 Clwb Rygbi Llambed wedi ennill twrnamaint yn Trimsaran ar y 10fed o Hydref. Cawson gystadleuaeth gyffrous ac enillwyd yn erbyn Cydweli B (7:1), Hendy (5:2) a Llandeilo (4:1) yn y grŵp, ac yna ennill yn y rownd derfynol yn erbyn Cydweli A (3-0) a Llanelli Wanderers (3:2). Da iawn fechgyn am weithio yn dda fel tîm ac am y brwdfrydedd yn ennill y dydd. Kevin Morgan (Hyfforddwr), Keith Davies, Mark Saunders (Hyfforddwr), Llewelyn James, Ifan Thomas, Owen Heath, Danny Hines, Daniel Jones, Joseph Saunders, Jac Williams, Rhys Bishop, Rhodri Morgan.

Dyma lun o blant Ysgol Llanwenog gyda'u holl roddion o ddiolchgarwch.

Cymeriadau 'Annie' sioe lwyfan Gymraeg gan ddisgyblion Ysgol Gyfun Llambed

Oedfa ddiolchgarwch yng ngofal Ysgol Sul Noddfa, Llambed wedi ei llunio gan Janet ar y thema 'Dwylo'.

Yn dilyn gwasanaeth arbennig yn Eglwys Sant Pedr, Llanbedr Pont Steffan ar nos Wener Medi 30ain ac wedyn yn Neuadd yr Eglwys, cyflwynwyd Tystysgrifau Gwobr Ddiemwnt i saith o aelodau 'League of Friends' Hafandeg yn arwydd o werthfawrogiad am eu gwasanaeth diffuant dros nifer fawr o flynyddoedd. O'r chwith, Ann Davies, 20+mlynedd; Evan Davies, 10-20ml; Phyllis Smith MBE, 30+ml; Kistiah Ramaya, 29ml a 25 ohonynt yn gadeirydd; Cecilia Barton, 20+ml; Bella Murray, 10-20ml; Glenys Morris, 20+ml. Hefyd yn y llun mae Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion, Cyng. Haydn Lewis; Elin Jones, AC; Phill James, Cyfarwyddwr Attend; y Maer a'r Faeres, Cyng. Rob Phillips a Delyth Morgans

Llinos Bowen o Fanc Lloyds TSB yn Llambed yn cyflwyno siec am £500 i aelodau Cyngor Neuadd Bro Fana, Ffarmers.

Plant Mewn Angen

Annwyl Olygydd,

A oes modd tynnu sylw'r darllenwyr at ddyddiad Apêl Plant Mewn Angen sydd eleni ar **Dachwedd 19**. Byddwn yng Nghapel Wesle ar y Cwmins o 9 o'r gloch y bore tan 6.30 o'r gloch yr hwyr i dderbyn eich cyfraniadau. Trosglwyddwyd siec gennym o £19,234.10 i Gronfa Plant Mewn Angen yn dilyn ymdrech 2009. Hyderwn y bydd yr ymateb eleni eto yn cyrraedd £20,000 er gwaethaf yr hinsawdd economaidd. Os na fedrwch ddod ar y diwrnod i Gapel Sant Thomas, danfonwch eich cyfraniad drwy'r post at: Y Mans, Stryd Newydd, Llambed, neu ei roi ar unrhyw adeg drwy'r blwch post yn Y Mans. Diolch am eich cefnogaeth arferol.

Yn gywir iawn,

Beti a Goronwy Evans a'r criw gweithgar.